

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Menter a Busnes

Helpu Pobl Ifanc i Gael Gwaith

Mawrth 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Menter a Busnes
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6565

E-bost: SeneddBusnes@cynulliad.cymru

Twitter: [@SeneddBusnes](https://twitter.com/SeneddBusnes)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Menter a Busnes

Helpu Pobl Ifanc i Gael Gwaith

Mawrth 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Y Pwyllgor Menter a Busnes

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Ei gylch gwaith yw archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisïau, gan gwmpasu datblygu economaidd; trafnidiaeth a seilwaith; cyflogaeth; addysg uwch a sgiliau; ac ymchwil a datblygu, gan gynnwys technoleg a gwyddoniaeth.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor



William Graham (Cadeirydd)

Ceidwadwyr Cymreig
Dwyrain De Cymru



Mick Antoniw

Llafur Cymru
Pontypridd



Jeff Cuthbert

Llafur Cymru
Caerffili



Byron Davies

Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin De Cymru



Keith Davies

Llafur Cymru
Llanelli



Dafydd Elis-Thomas

Plaid Cymru
Dwyfor Meirionnydd



Rhun ap Iorwerth

Plaid Cymru
Ynys Môn



Eluned Parrott

Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Canol De Cymru



Gwenda Thomas

Llafur Cymru
Castell-nedd



Joyce Watson

Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cynnwys

Argymhellion y Pwyllgor.....	5
Rhagair	8
Cyflwyniad i'r Ymchwiliad.....	11
Y rhwystrau i bobl ifanc.....	12
Diffyg hyder	12
Sgiliau hanfodol	12
Sgiliau parod at waith.....	13
Symud o gwmpas y farchnad swyddi.....	15
Diffyg profiad.....	17
Profiad gwaith	19
Gwirfoddoli	21
Cyrsgau galwedigaethol a sgiliau penodol i'r sector	21
Gwybodaeth am y farchnad lafur	22
Parch cydradd at hyfforddiant seiliedig ar waith	23
Trafnidiaeth – rhwystr i ddod o hyd i waith	24
Cyngor a chyfarwyddyd	26
Cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd.....	26
Gyrfa Cymru.....	28
Cyllid	28
Ymgysylltu â darparwyr hyfforddiant ôl-16	29
Ymgysylltu â chyflogwyr	31
Ymgysylltu â chyflogwyr.....	31
Rhwystrau ychwanegol i bobl ifanc sy'n agored i niwed	33
Pobl ifanc ag anabledd	33
Agweddau negyddol a gwahaniaethu yn y gweithle	33
Cyngor, arweiniad a chefnogaeth i bobl ifanc sy'n agored i niwed	33
Y broses recriwtio	35
Teithio a thrafnidiaeth.....	35

Pobl ifanc sy'n derbyn gofal, ac yn gadael gofal	35
Digartrefedd neu brinder llety addas	37
Pobl ifanc anodd eu cyrraedd	38
Cymorth ymarferol	39
Cyllid	40
Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant	42
Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid Llywodraeth Cymru	42
Adnabod yn gynnar	43
Rhannu data er mwyn gwella adnabod yn gynnar ac olrhain	45
Gweithwyr arweiniol	46
Rhaglenni Llywodraeth Cymru	48
Twf Swyddi Cymru	48
Hyfforddeiaethau	49
Prentisiaethau	50
Dilyniant	51
Bylchau yn y ddarpariaeth	52
Cyllid ar gyfer cyrsiau i bobl ifanc 18 oed a hŷn	52
Entrepreneuriaeth Ieuenctid	53
Monitro a gwerthuso	53
Cyllid	54
Adolygiadau Llywodraeth Cymru	55
Adolygiadau Llywodraeth Cymru	55
Atodiad A – Cylch gorchwyl	56
Atodiad B – Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig	57
Atodiad C – Tystion	58
Atodiad D – Nodiadau o'r digwyddiadau i randdeiliaid	59

Argymhellion y Pwyllgor

Rhestrir argymhellion y Pwyllgor isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr adroddiad hwn. Cyfeirir ein holl argymhellion at Lywodraeth Cymru. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth sy'n cyd-fynd â'r argymhellion a'r casgliadau.

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru gryfhau'r addysg a roddir ar sgiliau parod at waith a deall y farchnad lafur drwy'r cwricwlwm cyfan yn ogystal â thrwy'r fframwaith "Gyrfaedd a Byd Gwaith". (Tudalen 17)

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru wneud newidiadau sylfaenol i'r profiad gwaith a gynigir i bobl ifanc. Dylai adolygu'r arferion gorau o ran profiad gwaith; ystyried ei wneud yn hirach; gwneud mwy i sicrhau bod mwy o gyflogwyr yn cymryd rhan; a sicrhau bod digon o adnoddau (naill ai yn Gyrfa Cymru neu mewn ysgolion) i drefnu'r profiad gwaith yn briodol. (Tudalen 20)

Argymhelliad 3. Argymhellwn fod y Dirprwy Weinidog yn ailgyflwyno'r cyfrifoldeb ar Gyrfa Cymru i gynnal archwiliadau lechyd a Diogelwch mewn lleoliadau profiad gwaith, ac i gadw cronfa ddata genedlaethol o brofiad gwaith. (Tudalen 20)

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu a gwerthuso'r gwaith o gyflwyno'r broses ymgeisio gyffredin a'r prosiectysau i sicrhau bod disgyblion ysgol yn cael gwybodaeth a chyfle i ddilyn cyrsiau galwedigaethol yn ogystal â rhai academiaidd, (naill ai mewn ysgolion eraill neu golegau addysg bellach). (Tudalen 23)

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu canlyniadau *Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009* a phwyso a mesur y cyfleoedd i bobl ifanc yn yr ysgol ddewis cyrsiau galwedigaethol yn 14 oed ac 16 oed, naill ai mewn ysgolion eraill neu mewn colegau addysg bellach. (Tudalen 23)

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru ddadansoddi'r cydbwysedd rhwng dysgu academiaidd a dysgu seiliedig ar waith ôl-16, ac asesu a yw'r cydbwysedd hwn yn briodol ar gyfer economi Cymru y dyddiau hyn. (Tudalen 24)

Argymhelliad 7. Ar ôl cyflwyno'r cynllun Tocynnau Teithio Rhatach i Bobl Ifanc 16 ac 17 oed (o fis Medi 2015 ymlaen), dylai Llywodraeth Cymru gynnal astudiaeth i edrych ar y gost o ymestyn y cynllun hwn i bobl ifanc rhwng 18 a 24 oed, a pha mor ymarferol fyddai hynny. (Tudalen 25)

Argymhelliad 8. Argymhellwn yn gryf fod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod Gyrfa Cymru yn darparu cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd wyneb yn wyneb ar gyfer pob person ifanc sydd ei angen. (Tudalen 29)

Argymhelliad 9. Argymhellwn fod adolygiad y Dirprwy Weinidog o ymgysylltu â chyflogwyr yn cael blaenoriaeth ac yn cael ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Gorffennaf 2015. Gofynnwn i'r Dirprwy Weinidog ysgrifennu atom gan roi rhagor o fanylion am yr adolygiad a'r amserlen. (Tudalen 32)

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i fynd i'r afael ag anghysonderau yn y system budd-daliadau, er enghraifft, yr anhawster y mae pobl ifanc yn ei wynebu o ran parhau â'u tenantiaeth os caiff eu budd-dal tai ei dorri oherwydd eu bod wedi derbyn swydd nad yw'n talu'n dda. (Tudalen 38)

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru ariannu rhagor o gyrsiau hyblyg a all gynnwys pobl ifanc sydd angen rhagor o amser i sicrhau'r canlyniadau sy'n ofynnol. (Tudalen 39)

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu'r gwaith ar gydgysylltu a chynllunio'r cymorth ariannol presennol ar gyfer y trydydd sector er mwyn lleihau dyblygu ac i roi blaenoriaeth i roi cymorth i'r bobl ifanc anoddaf eu cyrraedd i fynd i mewn i'r farchnad swyddi. (Tudalen 41)

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu'r buddsoddiad yn y gweithwyr arweiniol ar gyfer pobl ifanc sy'n agored i niwed i sicrhau eu bod yn cael y cymorth un-i-un sydd ei angen arnyn nhw i'w helpu i ddod o hyd i waith. (Tudalen 47)

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru wella'r hyfforddiant sydd ar gael cyn y lefel mynediad i helpu pobl ifanc ymgymryd â hyfforddeiaeth. (Tudalen 50)

Argymhelliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru wneud hyd yn oed mwy i ledaenu gwybodaeth am brentisiaethau yn ehangach. (Tudalen 51)

Argymhelliad 16. Argymhellwn fod y Dirprwy Weinidog yn cynnal yr adolygiadau canlynol ar frys, a gofynnwn iddi roi rhagor o fanylion am y cynlluniau gweithredu a'r amserlenni ar gyfer yr adolygiadau a'r prosiectau hyn, gan gynnwys: 55

- yr adolygiad o brofiad gwaith;
- yr adolygiad o strwythur Gyrfa Cymru; a'r
- cynlluniau ar gyfer dull gwell o ymwneud â chyflogwyr i ddarparu gwybodaeth gywir am y farchnad lafur i bobl ifanc. (Tudalen 55)

Rhagair

1. Yn ôl yr ystadegau diweddaraf a gyhoeddwyd, roedd 17.6% o bobl ifanc 16-24 oed yng Nghymru yn ddi-waith rhwng mis Hydref 2013 a mis Medi 2014. Cymharer hyn â 7.4% o bobl ifanc 25-34 oed a 4.4% o bobl ifanc 35-49 oed.¹
2. Yn ystod tymor yr hydref 2014, penderfynodd y Pwyllgor gynnal ymchwiliad o'r enw Helpu Pobl Ifanc i Gael Gwaith. Aethom ati i ymchwilio i'r rhwystrau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu, a pha mor llwyddiannus yw amryw gynlluniau ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector o ran eu helpu i gael gwaith. Roedd hyn yn cynnwys y cynlluniau a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei *Rhaglen Lywodraethu 2011-16*, sef Twf Swyddi Cymru, Prentisiaethau, Hyfforddeiaethau, y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu leuenctid, a Camau at Waith. Roedden ni hefyd am gael tystiolaeth gan y gwahanol gyrff sy'n ymwneud â pharatoi myfyrwyr ifanc ar gyfer byd gwaith.
3. Un o'r prif bethau a ddaeth i'r amlwg oedd bod y glorian yn dal i bwyso'n drwm ar ochr astudiaethau academiaidd. Mae hynny'n anghydnaws â'r cyfleoedd gwaith sydd ar gael i bobl ifanc ac nid yw'n gwneud fawr i'w paratoi ar gyfer bywyd gwaith. Er bod Llywodraeth Cymru wedi ceisio hyrwyddo dysgu seiliedig ar waith a pharch cydradd ar gyfer hyfforddiant galwedigaethol, dim ond 0.3% o'r rhai a adawodd yr ysgol yng Nghaerdydd y llynedd ddechreuodd brentisiaeth. Cymharer hyn â'r 87% sy'n mynd ymlaen i addysg bellach.² Fel y nododd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, gallai fod yn rhatach o lawer i annog myfyrwyr i ddechrau prentisiaeth yn hytrach na mynd ymlaen i faes astudiaethau academiaidd pellach, yn enwedig o ystyried y costau i'r rhai a fydd yn mynd ymlaen i brifysgol.
4. Mae rhai o'r rhwystrau sy'n wynebu pobl ifanc yn bethau sylfaenol. Dywedodd cyflogwyr wrthym fod gormod o bobl ifanc yn gadael yr ysgol heb sgiliau hanfodol mewn llythrennedd a rhifedd. Hefyd, mae prinder sgiliau "parod at waith" fel prydlondeb a gwybod sut i ymddwyn o gwmpas cydweithwyr.
5. Yn aml iawn does gan bobl ifanc ddim digon o wybodaeth ymarferol am sut i chwilio am swydd. Soniodd Gwasanaeth leuenctid Sir Fynwy wrthym am fyfyrwyr galluog iawn a oedd yn gadael yr ysgol a/neu goleg heb syniad sut i

¹ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, [Ystadegau swyddogol y farchnad lafur gan NOMIS](#)

² Cofnod y Trafodion, paragraff 142, 12 Tachwedd 2014

lunio CV neu gysylltu â darpar gyflogwr. Roedd hyn yn ategu tystiolaeth gan recriwtwyr eu bod yn aml yn gweld ffurflenni cais wedi'u llenwi mewn "iaith negeseuon testun". Mae gormod o'n pobl ifanc yn ansicr sut i adnabod cyfleoedd yn y farchnad swyddi a gwneud cais amdanyn nhw, ac yn achos y rhai sydd â'r anawsterau mwyaf, mae prinder cyngor gyrfaedd wyneb yn wyneb a gorfod mynd i'r afael â gwasanaethau ar-lein yn rhwystr arall.

6. Mae'n destun pryder bod anallu pobl ifanc i reoli arian wedi arwain llawer ohonyn nhw i oramcangyfrif y costau sy'n gysylltiedig â derbyn swydd, a'u bod nhw felly wedi dewis aros yn niogelwch y system fudd-daliadau. Tynnodd pobl ifanc sylw at yr angen am rai o'r sgiliau hyn mewn arolwg a gynhaliwyd gan dîm Allgymorth y Cynulliad, a ofynnodd iddyn nhw pa bynciau yr hofffen nhw wneud mwy ohonyn nhw yn yr ysgol. Roedd nifer helaeth iawn o'r myfyrwyr eisiau rhagor o "sgiliau llythrennedd ariannol, rheolaeth a sgiliau bywyd"

7. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru a Bethan Jenkins AC ar hybu amcanion a dyheadau'r Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru) drwy ddulliau eraill.

8. Mae pob un o'r rhwystrau hyn yn arwain at ddiffyg hyder yn y rhai sy'n gadael ysgolion a cholegau. Dro ar ôl tro rydyn ni'n clywed bod cyflogwyr yn gofyn am brofiad, ond does dim modd i bobl gael profiad heb gael cyfle. Doedd dim digon o'r bobl ifanc y buom yn siarad â nhw yn gwybod am y cyfleoedd ym maes gwirfoddoli a allai helpu i oresgyn y rhwystr hwn. Dywedodd Urdd Gobaith Cymru, sy'n un o'r rhai mwyaf llwyddiannus o ran cyflogi pobl ifanc yng Nghymru, bod ei draddodiad o wirfoddoli wedi bod yn bwysig wrth recriwtio.

9. Un arall o'r anawsterau ymarferol yw trafndiaeth, sy'n broblem yng Nghymru wledig. Ar wahân i'r anhawster o gyrraedd y gweithle o ddydd i ddydd, mae pobl ifanc mewn ardaloedd o'r fath yn aml yn cael problem mynd i gyfweliadau, neu hyd yn oed mynd i lyfrgell i chwilio am gyfleoedd gwaith. Tynnwn sylw at lwyddiant y Cynllun Sgwter yn Sir Benfro, sy'n mynd i'r afael â'r problemau hyn drwy gynnig sgwteri ar rent i bobl ifanc i'w helpu pan fyddan nhw'n dechrau swydd newydd. Hoffem weld y Llywodraeth yn cefnogi cynlluniau arloesol tebyg ledled Cymru, lle bo hynny'n briodol, i lenwi'r bwlch mewn ardaloedd lle mae trafndiaeth gyhoeddus yn brin.

10. Roedd nifer o gyflogwyr a sefydliadau hyfforddi yn teimlo'n rhwystredig na allen nhw fynd i siarad â phobl ifanc yn yr ysgol. Teimlwyd y byddai'n rhaid i ysgolion agor eu drysau er mwyn i fyfyrwyr gael darlun teg o fydd

gwaith, yr opsiynau sydd ar gael iddyn nhw yn y farchnad swyddi, a sut y gallen nhw ddefnyddio'u haddysg i baratoi ar gyfer eu gyrfa. Cawsom ein calonogi bod y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg wedi ymrwymo i gryfhau'r cysylltiadau rhwng ysgolion a chyflogwyr, ond pwysleisiwn fod y dystiolaeth a glywsom yn galw am newid y drefn yn sylfaenol.

11. Mae Llywodraeth Cymru yn sicr wedi blaenoriaethu swyddi ar gyfer pobl ifanc, ac mae ei chynlluniau a'i rhaglenni, ar y cyfan, wedi gwella pethau. Yn ystod ein hymchwiliad, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg bod Twf Swyddi Cymru wedi cyrraedd ei darged o ddarparu 16,000 o gyfleoedd swyddi newydd, a hynny ddeunaw mis yn gynt na'r disgwyl. Mae hyn yn gynnydd mawr, ond clywsom hefyd mai amrywiol oedd ansawdd y profiad, a'i fod yn amrywio o un cwmni i'r llall. Roedd rhai o'r tystion yn cwestiynu a oedd y ffaith nad oedd y cwmnïau dan sylw yn cyfrannu'n ariannol yn effeithio ar eu gallu i gefnogi'r cynllun. Yn yr un modd, mae 8,200 o bobl ifanc ar hyfforddeiaethau, ac mae rhai enghreifftiau rhagorol o gynlluniau prentisiaeth llwyddiannus, ond clywsom gan ddarparwyr y gellid cydlynu'r rhain yn well, a chreu un pwynt cyswllt ar gyfer y cymorth a roddir gan y Llywodraeth. I bobl ifanc sydd â'r problemau mwyaf, cyflwynwyd 'gweithiwr arweiniol' o dan y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu leuenctid, a barnwyd bod hynny'n ddatblygiad cadarnhaol iawn. Gobeithiai'r tystion y byddai hyn yn parhau i gael ei ariannu yn y dyfodol.

12. Serch hynny, mae maint y dasg sy'n wynebu Cymru wrth helpu ei phobl ifanc i gael gwaith yn amlwg wrth edrych ar y gwahaniaeth yn y lefelau diweithdra yn ôl grŵp oedran. Gobeithiwn y bydd Llywodraeth Cymru yn derbyn ein hargymhellion ac yn defnyddio'r dystiolaeth yn yr adroddiad hwn yn sail i wneud gwelliannau pellach o ran helpu pobl ifanc i gael gwaith.

Cyflwyniad i'r Ymchwiliad

13. Nod yr ymchwiliad oedd edrych ar yr hyn a oedd yn effeithiol o ran cynorthwyo pobl ifanc (16-24 oed) i gael gwaith, a pha gymorth pellach y gellid ei roi iddyn nhw.

14. Y cam cyntaf oedd galw am dystiolaeth ysgrifenedig, a gwnaed hynny ym mis Medi 2014. Mae cylch gorchwyl yr ymchwiliad yn Atodiad A. Cawsom 24 cyflwyniad ysgrifenedig, a restrir yn Atodiad B.

15. Cynhaliwyd wyth sesiwn dystiolaeth lafar gydag amrywiaeth o dystion, gan gynnwys awdurdodau lleol, elusennau, cyflogwyr, darparwyr hyfforddiant a'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg. Mae rhestr lawn o'r tystion yn Atodiad C.

16. Hefyd, buom yn ymweld ag Info-Nation yn Abertawe i siarad â phobl ifanc am y materion sy'n effeithio arnyn nhw, a chynhaliwyd sesiwn grŵp ffocws ar Gampws Abertawe, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant i glywed barn rhanddeiliaid. Mae crynodeb o'n trafodaethau yn Atodiad D.

17. Rydyn ni'n ddiolchgar iawn i bawb a gyfrannodd at ein hymchwiliad, ac rydyn ni'n hyderus ein bod wedi ystyried y dystiolaeth a gawsom yn ein hadroddiad a'n hargymhellion.

Y rhwystrau i bobl ifanc

18. Fel rhan o'r ymchwiliad, gofynnwyd i'r tystion ddweud wrthym am y prif rwystrau sy'n ei gwneud yn anodd i bobl ifanc gael gwaith.

Diffyg hyder

19. Yn seiliedig ar ei brofiad, teimlai Gyrfa Cymru mai'r rhwystr mwyaf i bobl ifanc gael gwaith a hyfforddiant yw materion personol - diffyg hyder, diffyg cymwysterau a diffyg profiad:

“Certainly, we found that when we undertook, with the local authority, a workshop with young people who are outside education, training and employment in some of the deprived communities of Cardiff, the reasons they kept coming back to were those personal ones: lack of confidence, lack of qualifications and lack of experience.”

20. Dywedodd Cyngor Dinas a Sir Abertawe wrthym os oedd person ifanc wedi tangyflawni yn yr ysgol y gallai fod yn brin o hyder a hunan-barch a heb gael profiadau cadarnhaol. Er y bu llawer iawn o ymchwil i'r rhesymau pam nad yw pobl ifanc mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, mae'n awgrymu nad oedd llawer o ymchwil i ddisgwyliadau pobl ifanc a'r darlun sydd ganddyn nhw o weithle, neu beth oedd yn eu poeni nhw wrth feddwl am gyflogaeth, addysg a hyfforddiant.

Sgiliau hanfodol

21. Soniodd nifer o'r rhai a ymatebodd i'n hymchwiliad nad oedd gan bobl ifanc ddigon o sgiliau hanfodol. Soniodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam mai prinder cymwysterau hanfodol (llythrennedd a rhifedd)³ oedd un o'r prif rwystrau sy'n wynebu pobl ifanc.

22. Roedd Working Links yn cytuno, a dywedodd bod gan fwy na hanner y cwsmeriaid y mae'n ymwneud â nhw ar y Rhaglen Waith broblemau o ran sgiliau hanfodol.

23. Disgrifiodd Admiral effaith hyn ar gyflogwyr, gan ddweud:

“There is a commitment to try and develop these people within Admiral, but we still think that if some of these young people are unable to write something that is coherent in the first place, that is then a lot of work for employers to develop people.”

³ Tystiolaeth ysgrifenedig AYP 07, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Sgiliau parod at waith

24. Roedd diffyg sgiliau "meddal" neu sgiliau "parod at waith", megis bod yn brydlon a dibynadwy a gwybod sut i ymddwyn o gwmpas cydweithwyr, hefyd yn achosi problemau.

25. Dywedodd y rhai a ddaeth i'n digwyddiad yn Abertawe wrthym fod angen addysgu sgiliau cyflogadwyedd yn ogystal â gwella sgiliau hanfodol, gan fod paratoi pobl ifanc ar gyfer y gweithle yn bwysig iawn o ran eu hagwedd, eu sgiliau cadw amser a sgiliau cymdeithasol. Roedden nhw'n teimlo bod angen i hyn ddigwydd pan oedd y bobl ifanc yn llawer iau nag 14 ac 16 oed, oherwydd erbyn hynny roedden nhw eisoes wedi dysgu arferion gwael. Maen nhw'n awgrymu bod y cynnydd yn y defnydd a wneir o'r cyfryngau cymdeithasol yn golygu nad yw'r genhedlaeth bresennol yn datblygu'r sgiliau hyn gystal â'r cenedlaethau blaenorol.


26. Roedd y cyflogwyr y siaradwyd â hwy yn teimlo'n gryf iawn am hyn. Yn ôl tystiolaeth y Groes Goch Brydeinig:

"Many of the young people we have encountered through these schemes have lacked the skills to answer the phone in a work environment, undertake an effective interview, or complete a job application. We have also encountered young people who are unable to understand or manage their budget, paralysing them into thinking they cannot afford to undertake placements or employment believing it financially better to remain on welfare benefits. Our experience is that young people who lack these skills subsequently feel ill-equipped to look for employment and lack the confidence to apply for employment."⁴

27. Yn ddiddorol iawn, mae'r bobl ifanc hefyd wedi nodi bod angen i'r mathau hyn o sgiliau gael eu haddysgu yn yr ysgol. Mae atebion myfyrwyr i holiadur a ddosbarthwyd gan dîm Allgymorth y Cynulliad yn dangos bod galw mawr am gwrs mewn ysgolion ar sgiliau bywyd.

⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig AYP 17, y Groes Goch Brydeinig

Cwestiwn 3 – Yn eich barn chi, a oes rhywbeth y dylid ei addysgu mewn ysgolion nad yw'n cael ei addysgu ar hyn o bryd?



28. Awgrymodd BBC Cymru Wales y gallai cynlluniau fel prentisiaethau a phrofiad gwaith fod yn werthfawr iawn wrth baratoi pobl ifanc ar gyfer byd gwaith. Dywedodd wrthym:

“O ran profiad gwaith, eto, mae’n rhoi blas i bobl ifanc ar beth yw bod mewn sefyllfa gwaith—hyd yn oed os nad yw ar gyfer rôl arbennig, mae’n rhoi cyfle arbennig iddynt gael blas ar beth y mae hynny’n ei olygu, hyd yn oed i’r graddau bod yn rhaid ichi droi i fyny ar amser a bod yn y gwaith yn golygu eich bod yn cyfrannu’n gadarnhaol i’r hyn sy’n mynd ymlaen ac yn y blaen.”⁵

29. Mae Llywodraeth Cymru yn gwybod am y materion hyn. Yn ei thystiolaeth i ni, dywedodd Julie James, y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg:

“One of the things we are looking at, as you know, is a complete qualifications and curriculum review. One of the things the curriculum review is going to be looking at is ensuring that, rather than teaching people to be bored for a very large percentage of the time, school actually engages them and teaches them real life skills. That is going to be very much part of that review. Schools are where you prepare for life, are they not? It is not just at home. We need to

⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 154, 6 Tachwedd 2014

get academic qualifications into people, but we need to get proper skills into them as well.”⁶

30. I fynd ar drywydd y materion hyn, cynhaliodd y Pwyllgor gyfarfod ychwanegol gyda chynrychiolwyr tair ysgol. Dywedodd yr ysgolion wrthym fod cyflwyno TGAU newydd cadarnach mewn Saesneg, Cymraeg, Mathemateg a rhifedd yn golygu mai *ychydig iawn o amser* sydd ar gael yn y cwricwlwm i gynnwys pynciau eraill, er enghraifft, sgiliau cyflogadwyedd.

Symud o gwmpas y farchnad swyddi

31. Dywedodd sawl tyst nad oedd gan rai pobl ifanc ddealltwriaeth o'r marchnadoedd llafur, ac nad oedden nhw'n gwybod sut i ddod o hyd i swyddi ac ymgeisio amdany'n nhw. Yn ôl Comisiynydd Plant Cymru:

“Connected to the need to improve young people’s understanding of the labour market is a need to improve young people’s knowledge and awareness of employers’ recruitment behaviour. Although most use the internet to wholly constitute or supplement their recruitment and selection practices, methods for recruitment vary both by job type and locality.

“Many young people are unaware of these differing recruitment practices and with a general lack of work experience find it difficult to best to ‘sell’ themselves to secure a job that would provide them with such experience. In responding to increased pressures of having to carry out as many job searches and applications as possible, many young people are adopting a ‘scattergun’ approach to applications and often employers are receiving a vast amount of applications that may not be relevant to their vacancies.”⁷

32. Canfu ymchwil a wnaeth Sefydliad Joseph Rowntree fod y sefyllfa hon yn waeth mewn ardaloedd sydd â marchnadoedd llafur gwan. Yn y manau hynny roedd pobl ifanc yn gorfod cyflwyno bron i ddwywaith gymaint o geisiadau i gael yr un nifer o ymatebion cadarnhaol â'r rhai o ardaloedd o ffyniant economaidd. Roedd bod yn aflwyddiannus, neu ddim yn cael adborth am eu ceisiadau, yn niweidio hyder pobl ifanc.

33. Dywedodd Cyngor Sir Fynwy wrthym:

⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 112, 26 Tachwedd 2014

⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig AYP 9, Comisiynydd Plant Cymru

“As a practitioner, a barrier that I have identified is the understanding of how to navigate the job market in particular. There have been times when I have worked with a young person and I think, ‘I genuinely can’t believe that you’re not employed’ and then you take a look at the way that they navigate the job market, the way that they do their application forms and CVs and you think, ‘That’s their barrier’. I believe that, if no-one has ever shown you how to do something, how are you expected to know how to do that?”⁸

34. Yn ei dystiolaeth, dywedodd y Groes Goch Brydeinig ei fod wedi gweld bod llawer o bobl ifanc yn brin o ddealltwriaeth sylfaenol sut i gyflwyno'u hunain neu ymddwyn mewn cyfweiliad neu yn ystod cyflogaeth. Credir bod hynny'n bennaf oherwydd nad oedd gwaith gan unrhyw un yn eu teulu agos, ac nad oedd ganddyn nhw felly gysylltiad anuniongyrchol â'r amgylchedd gwaith.

35. Dywedodd Admiral fod llawer o bobl ifanc yn methu wrth lenwi'r ffurflen gais:

“We do not ask for any formal qualifications, but we expect the spelling and grammar on the application form to be of a certain standard. A lot of it is like text-speak, there is no punctuation or upper case. So, that is the first impression that you get.”⁹

36. Dywedodd y bobl ifanc y buom yn sgwrsio â nhw yn Info-Nation nad oedden nhw'n credu bod digon o gymorth ar gael mewn ysgolion o ran ysgrifennu CV, llenwi ffurflenni cais neu sut i ymddwyn mewn cyfweiliad.

37. Clywsom am nifer o gynlluniau a rhaglenni sydd ar gael i helpu pobl ifanc baratoi am waith. Mae Cyngor Sir Fynwy, er enghraifft, yn gwneud y canlynol:

“Invite representatives from HR to come to speak to the young people and tell them exactly the kinds of things that they would expect to see on an application form and literally go through ‘this is how you would fill out the application form and this is the kind of thing that I am looking for in an interview setting’. As that is delivered within a provision, it is safe, so the young people have the opportunity to ask questions to the right people.”¹⁰

⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 64, 12 Tachwedd 2014

⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 145, 6 Tachwedd 2014

¹⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 66, 12 Tachwedd 2014

38. Dywedodd Cymunedau yn Gyntaf y Barri ei fod ef, Asda a'r ganolfan waith leol wedi creu pecyn lle gall pobl ifanc lleol gymryd rhan mewn grwpiau ffocws, cael cyngor recriwtio, mynychu cyfweiliadau ffug a chael cipolwg ar y byd siopau cyn gwneud cais i siop Asda newydd a fydd yn agor yn y Barri y flwyddyn nesaf.

39. Rydym yn cydnabod y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried argymhellion adolygiad Syr Graham Donaldson o'r cwricwlwm ac asesu yng Nghymru cyn bo hir (i'w gyhoeddi yn ystod gwanwyn 2015).

Dylai Llywodraeth Cymru gryfhau'r addysg a roddir ar sgiliau parod at waith a deall y farchnad lafur drwy'r cwricwlwm cyfan yn ogystal â thrwy'r fframwaith "Gyrfaedd a Byd Gwaith".

Diffyg profiad

40. Mae cyflogwyr yn aml yn gofyn am brofiad gwaith perthnasol blaenorol fel rhan o'u meini prawf recriwtio ond ni all pobl ifanc gael profiad heb gael cyfle. Cyfeiriodd Menter yr Ifanc Cymru at hynny fel "the employability skill catch- 22":

"All of the young people that we spoke to had a good idea of what career path they might like to take, but few had first (or second) hand experience of what day-to-day life in that role would entail. The majority of young people believe that employers are looking for experience and there tends to be a sense of helplessness that they can't get experience if they don't already have experience 'the employability skill catch 22'."¹¹

41. Dywedodd Working Links wrthym:

"Many young people do not have the required qualifications or work experience to enter employment. Whilst this is an obvious disadvantage for any employer, it also means that the young person has not experienced the requirements of a work environment, such as being at work at certain times and other expectations. Where we identify a lack of work experience as a main barrier to employment we will work with key employers to access work trails and volunteering opportunities."¹²

¹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig AYP 10, Menter yr Ifanc Cymru

¹² Tystiolaeth ysgrifenedig AYP 12, Working Links

42. Clywsom nifer o sylwadau am werth profiad gwaith i bobl ifanc yn ogystal â beirniadaeth o rai o'r profiadau a gafodd pobl ifanc o leoliadau gwaith. Yn ôl Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau:

“Lack of experience is one of the main barriers for young people looking to enter work yet less than a quarter of Welsh employers offer work experience to school aged young people.”¹³

43. Roedd y bobl ifanc a gyfrannodd at fideo ein Tîm Allgymorth yn cefnogi'r farn hon:

“There is a loop: you either can't get the job because you've not got the qualifications and then, once you've got the qualifications, you can't get the job because you haven't had the experience.” – Shannara McFarlane

“It's that whole situation about, 'We won't employ you unless you're experienced', but it's like a 'how are we going to get experience if no-one is going to employ us' kind of thing.” – Kheti Ncube

“Sometimes employers are unrealistic about the skills and the experience they expect from young people when they consider them for work.” - Will Jeffs

44. Dywedodd y rhai a ddaeth i'n digwyddiad yn Abertawe fod llawer o gyflogwyr yn gyndyn i gyflogi pobl ifanc, yn enwedig pobl ifanc ag ymddygiad heriol, oherwydd eu bod yn buddsoddi llawer o amser ac ymdrech ac nad yw hynny bob amser yn talu'i ffordd. Roedd hyn yn arbennig o wir gyda chyflogwyr llai.

45. Fodd bynnag, roedd yr Urdd yn gadarnhaol iawn am ei brofiad o gyflogi pobl ifanc, gan ddweud:

“Mae'r Urdd yn cyflogi 260 o bobl ac, yn ddiddorol, mae 30% o'r rheiny o dan 24 mlwydd oed. Felly, rydym yn llwyddo i recriwtio pobl ifanc yn dda. Mae nifer fawr o bobl ifanc yn dod atom ar ôl gwirfoddoli gyda ni, felly mae gennym lwybr o adnabod pobl ifanc sydd am ymwneud â'n gweithgareddau ni, ac wedyn, rydym yn gallu eu hyfforddi ac maen nhw'n dod yn gyflogeion teyrngar i ni.”¹⁴

¹³ Tystiolaeth ysgrifenedig AYP 08, Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau

¹⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 149, 6 Tachwedd 2014

Profiad gwaith

46. Soniodd llawer o'r ymatebwyr y gall profiad gwaith da fod yn bwysig iawn i baratoi pobl ifanc ar gyfer y gweithle.

47. Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru bod rhoi cyfle i bobl ifanc gael profiad gwaith o ansawdd uchel yn yr ysgol yn bwysig i sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu paratoi ar gyfer byd gwaith, ond awgrymodd bod lle i wella:

“Young people have told me that they would like clearer information about the choice of work experience placements available to them and that improved support is needed from Careers Wales in securing work experience placements. Many young people described to me that they used their family members and schools to secure work experience opportunities instead of utilizing the services provided by Careers Wales. Young people also told me that they would like to see greater quality and breadth of work experience placements being offered.”¹⁵

48. Yn ôl Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru:

“The key thing is about giving young people the opportunity to engage with the world of work, be it through work experiences or work taster sessions. Also, through the school sector, pre-16, it would be developing young people’s understanding of the world of work and what employers expect.”¹⁶

49. Awgrymodd Cyngor Dinas a Sir Abertawe bod angen i brofiad gwaith fod yn debycach i'r rhaglen addysg gysylltiedig â gwaith sydd ganddo. Yn y rhaglen honno, yn hytrach na threulio tri neu bedwar diwrnod ar ddiwedd y tymor, roedd y bobl ifanc yn treulio diwrnod yr wythnos am 30 wythnos ym mlwyddyn olaf y tymor. Bu hyn yn fuddiol iawn i rai o'r myfyrwyr, a oedd wedi mynd ymlaen i gael gwaith gyda nhw ar ddiwedd y rhaglen.

50. Rydym yn sylweddoli bod llythyr cylch gwaith Llywodraeth Cymru at Gyrfa Cymru ym mlwyddyn ariannol 2015-16 yn ei gwneud yn glir na fydd angen i Gyrfa Cymru gynnal archwiliadau Iechyd a Diogelwch mewn lleoliadau profiad gwaith, nac ychwaith i gadw cronfa ddata genedlaethol o brofiad gwaith.

¹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig AYP 09, Comisiynydd Plant Cymru

¹⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 126, 20 Tachwedd 2014

51. Hefyd, roedd llythyr cylch gwaith Llywodraeth Cymru yn dweud mai cyfrifoldeb yr ysgolion yw sicrhau y darperir y fframwaith Gyrfaedd a Byd Gwaith, gan gynnwys unrhyw brofiadau perthnasol ym myd gwaith. Dywedodd hefyd y byddai Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at yr holl ysgolion i'w hatgoffa mai nhw sy'n gyfrifol am hyn ac nid Gyrfa Cymru.

52. Fodd bynnag, roedd cynrychiolwyr o fyd addysg yn pryderu am allu ysgolion i ddarparu profiad gwaith o ansawdd da yn y dyfodol:

“...o safbwynt disgyblion, beth y maen nhw'n ei fwynhau yn fwy na dim byd arall ydy cyfleoedd i wneud profiad gwaith addas a phenodol.

“Rŷm ni'n gallu cynnig profiad gwaith, ond mae'n mynd yn fwy anodd oherwydd bod Gyrfa Cymru nawr yn dweud wrthym ni nad ydyn nhw'n mynd i fod yn fodlon trefnu profiad gwaith. Gyda nhw mae'r bas data; gyda nhw mae'r rhestr o gyflogwyr sydd wedi cael eu fetio, ac os ydyn nhw'n tynnu'r plwg ar brofiad gwaith, nid oes cyllid gyda ni, rwy'n siŵr, i gyflogi pobl yn weinyddol i fod yn gallu ei wneud e. Dywedais...fy mod yn teimlo bod hwn yn argyfwng achos os nad oes ffordd i'n plant ni i allu mynychu profiad gwaith cyson...maen nhw'n mynd i fod o dan anfantais mawr...”¹⁷

53. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym ei bod, fel rhan o raglen ymgysylltu â chyflogwyr Llywodraeth Cymru, yn adolygu'r profiad gwaith sydd ar gael er mwyn ei wneud yn fwy ystyrlon i bawb.

Dylai Llywodraeth Cymru wneud newidiadau sylfaenol i'r profiad gwaith a gynigir i bobl ifanc. Dylai adolygu'r arferion gorau o ran profiad gwaith; ystyried ei wneud yn hirach; gwneud mwy i sicrhau bod mwy o gyflogwyr yn cymryd rhan; a sicrhau bod digon o adnoddau (naill ai yn Gyrfa Cymru neu mewn ysgolion) i drefnu'r profiad gwaith yn briodol.

Argymhellwn fod y Dirprwy Weinidog yn ailgyflwyno'r cyfrifoldeb ar Gyrfa Cymru i gynnal archwiliadau lechyd a Diogelwch mewn lleoliadau profiad gwaith, ac i gadw cronfa ddata genedlaethol o brofiad gwaith.

54. Gofynnwn i'r Dirprwy Weinidog ddod yn ôl i'r Pwyllgor ar ôl gorffen yr adolygiad hwn i drafod y canfyddiadau.

¹⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 87, 15 Ionawr 2015

Gwirfoddoli

55. Pwysleisiodd y Groes Goch Brydeinig y rôl bwysig y gall gwirfoddoli ei chwarae o ran cael gwaith cyflogedig. Mae'n recriwtio staff drwy gyfleoedd gwirfoddoli; cyfleoedd heb fod yn gyflogedig fel interniaethau, profiad gwaith a lleoliadau gwaith; a chynlluniau cyflogaeth a phrentisiaethau. Awgrymodd fel a ganlyn:

“Greater emphasis and recognition should be given to the impact of volunteering for young people in helping them to build the skills, experience and confidence to secure employment. Volunteering is a less formal introduction to the workplace in which they can develop at their own pace in a supported and structured environment.”¹⁸

56. Hefyd, soniodd y bobl ifanc y buom yn sgwrsio â nhw yn Info-Nation, a'r rhai a ddaeth i'r drafodaeth bord gron yn Abertawe, mor bwysig oedd gwirfoddoli fel ffordd o gael gwaith.

Cyrsiau galwedigaethol a sgiliau penodol i'r sector

57. Dywedodd Working Links fod llawer o bobl ifanc yn cael eu hanfon atyn nhw heb gymwysterau, ac roedd y rhan fwyaf o'r sectorau cyflogaeth yn gofyn am gymwysterau lefel mynediad - fel y Cynllun Tystysgrif Sgiliau Adeiladu (CSCS):

“We do provide funding and support to gain these qualifications. However, it would be useful if more education under the age of 16 could focus on vocational skills.”

58. Awgrymodd Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau fel a ganlyn:

“Employers and education institutions should engage closely in order to create programmes of high quality work experience and co-designed vocational qualifications that more closely match the needs of business.”¹⁹

59. Fodd bynnag, dywedodd y rhanddeiliaid yn ein digwyddiad yn Abertawe bod problemau weithiau oherwydd diffyg parch at broffesiynau penodol, ac nad oedd parch cydradd i hyfforddiant galwedigaethol. Mae angen i bobl ifanc ddeall nad yw cymwysterau galwedigaethol yn llai pwysig na dysgu academaidd, ac y gallai gweithio â llaw dalu'n dda ac arwain at yrfa dda.

¹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig AYP 17, y Groes Goch Brydeinig

¹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig AYP 08, Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau

60. Clywsom bryderon hefyd gan yr ysgolion eu hunain am gydweithio i ddarparu rhagor o opsiynau galwedigaethol:

“Yr hyn yr oedd llwybrau dysgu 14-19 i wneud oedd ehangu’r cwricwlwm a dod â mwy o ddewis galwedigaethol i’r ford. Yr hyn sy’n digwydd nawr yw bod y partneriaethau yna mynd i gael eu colli ac yn cael eu cyfyngu. Mae ysgolion yn ei wneud e mewn ffyrdd gwahanol. Nid wyf eisiau dominyddu’r drafodaeth fan hyn, ond o safbwynt cais cyffredin ac yn y blaen, mae ysgolion yn gweithio ar y paratodau nawr o lawlyfrau a prospectuses blwyddyn 10 a blwyddyn 12, ond mae marc cwestiwn mawr dros y cynnwys oherwydd bod marc cwestiwn mawr dros yr arian, achos os nad yw’r arian yna, byddwn yn methu â chynnal y partneriaethau.”²⁰

Gwybodaeth am y farchnad lafur

61. Yn ôl Comisiynydd Plant Cymru:

“Research conducted by the JRF found that in order to enhance their chances of employment success, young people required strong knowledge and intelligence about the labour market. Estyn, however, has found that overall schools do not make effective use of labour market information to effectively support children and young people to make informed decisions about their futures.”²¹

62. Hefyd, dywedodd Menter yr Ifanc Cymru:

“Advice and guidance needs to reflect local issues and local market intelligence. There are huge and insurmountable local differences in the quantity and type of employment available. Information, advice and guidance needs to be careful and thoughtful to reflect this and should be heavily tailored to the opportunities afforded by the local labour market and the needs of individuals reflecting the opportunities base locally, regionally and nationally accurately.”²²

63. Wrth ddisgrifio proses y prospectws cyffredin a'r broses ymgeisio sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru, dywedodd y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg wrthym:

²⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 76, 15 Ionawr 2015

²¹ Tystiolaeth ysgrifenedig AYP 09, Comisiynydd Plant Cymru

²² Tystiolaeth ysgrifenedig AYP 10, Menter yr Ifanc Cymru

“One of the really good things about this is that it will have local employer labour market information on it. We want people to be aspirational, but we want them to be aspirational in a realistic way. So, for example, you do not want to train—I am trying to think of something—97 theatre managers in a place where there are only two theatres and that young person does not actually want to travel for their work. It is about making people understand what they need to travel for as well, what is locally available, what their life plan is and whether it matches with that. So, I think that that local labour market information, and the national and international labour market information, is really important at an early stage so that you can make those right decisions.”²³

Dylai Llywodraeth Cymru adolygu a gwerthuso'r gwaith o gyflwyno'r broses ymgeisio gyffredin a'r prospectysau i sicrhau bod disgyblion ysgol yn cael gwybodaeth a chyfle i ddilyn cyrsiau galwedigaethol yn ogystal â rhai academiaidd, (naill ai mewn ysgolion eraill neu golegau addysg bellach).

Parch cydradd at hyfforddiant seiliedig ar waith

64. Roedd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru hefyd yn teimlo bod anghydbwysedd sylfaenol rhwng dysgu academiaidd a dysgu seiliedig ar waith, gyda dim ond 0.3% o'r rhai a adawodd yr ysgol yng Nghaerdydd y llynedd yn dechrau prentisiaeth, o gymharu â'r 87% a aeth ymlaen i addysg bellach. Teimlwyd bod prentisiaethau yn cael eu tanbriso fel dull costeffeithiol o greu cyfleoedd i bobl ifanc gael gwaith:

“It is probably 20 times cheaper to put someone through an apprenticeship than it is to put someone through a degree. We have people on Jobs Growth Wales who have got degrees. I guess that it is good for that employer, but you have to query the return on investment and the expenditure going forward.”²⁴

Dylai Llywodraeth Cymru adolygu canlyniadau *Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009* a phwyso a mesur y cyfleoedd i bobl ifanc yn yr ysgol ddewis cyrsiau galwedigaethol yn 14 oed ac 16 oed, naill ai mewn ysgolion eraill neu mewn colegau addysg bellach.

²³ Cofnod y Trafodion, paragraff 98, 26 Tachwedd 2014

²⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 142, 12 Tachwedd 2014

Dylai Llywodraeth Cymru ddadansoddi'r cydbwysedd rhwng dysgu academaidd a dysgu seiliedig ar waith ôl-16, ac asesu a yw'r cydbwysedd hwn yn briodol ar gyfer economi Cymru y dyddiau hyn.

Trafnidiaeth – rhwystr i ddod o hyd i waith

65. Soniwyd bod trafndiaeth gyhoeddus yn rhwystr mawr i bobl ifanc gael gwaith oherwydd y gost, pa mor aml y mae ar gael a pha mor ddibynadwy ydyw. Dywedodd llawer o'r tystion nad yw trafndiaeth gyhoeddus yn cydfynd ag anghenion cyflogwyr, er enghraifft gwaith sifft, gweithio gyda'r nos yn rhan-amser neu ar benwythnosau.

66. Dywedodd Working Links wrthym:

“Particular geographical areas of Wales are not easily accessible for young people to travel to work, and many of our young people are not able to apply for certain roles as they may not have the transport to access work, and public transport may not fit the employer demands. Therefore for some larger scale employers such as Amazon, especially during periods of high employment such as at Christmas, we do pay for a mini bus. It is our belief that a review of public transport is required to identify “black-spots” as well as the possibility of a subsidy for young people who are unemployed.”²⁵

67. Hefyd, dywedodd staff Gyrfa Cymru bod trafndiaeth yn rhwystr mawr. Soniwyd bod trafndiaeth gyhoeddus yng Ngheredigion, yng ngorllewin Cymru, yn nyffrynnoedd de Cymru ac mewn llawer o ardaloedd gwledig yng ngogledd Cymru yn arbennig o broblemus. Y prif bryderon oedd y cwtogi ar y gwasanaethau gwledig, gwasanaethau anfyfych ac amseroedd teithio hir. Nid yw'r broblem yn gyfyngedig i ardaloedd gwledig; roedd problemau trafndiaeth yn effeithio ar bobl ifanc a oedd yn dechrau yn y farchnad lafur mewn dinasoedd hefyd. Yng Nghaerdydd, y gost oedd y rhwystr pennaf.

68. Clywsom am rai cynlluniau arloesol i geisio helpu i oresgyn y broblem. Er enghraifft, nod y Cynllun Sgwter, sy'n gweithredu yng Ngheredigion a Sir Benfro, yw galluogi pobl i dderbyn neu gadw swydd os nad oes ganddyn nhw ffordd arall o deithio i gael y swydd honno. Mae'n rhoi sgwter ar fenthyg iddyn nhw am gyfnod o hyd at 12 mis. Dywedodd y rhanddeiliaid yn ein digwyddiad yn Abertawe bod pobl ifanc 18 oed ac iau, ac weithiau rhai 19 oed, sydd mewn addysg amser llawn yn gallu teithio ar fysiau a thramiau am ddim yn Llundain gyda cherdyn Oyster.

²⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig AYP 12, Working Links

69. Dywedwyd wrthym hefyd fod y Ganolfan Waith yn rhoi talebau i bobl ifanc eu defnyddio ar fysiau, ond nid yw'r gyrrwyr bob amser yn gwybod beth ydyn nhw. Mae pobl ifanc yn mynd i deimlo embaras os oes rhaid iddyn nhw berswadio'r gyrrwr ei fod yn docyn dilys.

Ar ôl cyflwyno'r cynllun Tocynnau Teithio Rhatach i Bobl Ifanc 16 ac 17 oed (o fis Medi 2015 ymlaen), dylai Llywodraeth Cymru gynnal astudiaeth i edrych ar y gost o ymestyn y cynllun hwn i bobl ifanc rhwng 18 a 24 oed, a pha mor ymarferol fyddai hynny.

Cyngor a chyfarwyddyd

Cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd

70. Roedd gan y bobl ifanc a gyfrannodd at fideo'r Tîm Allgymorth safbwyntiau cymysg am y cyngor gyrfaoedd a gawson nhw yn yr ysgol:

“In school, we have a careers officer and I have been to see her before, but I think it’s very hard for a careers officer to learn what all the options are for the set job that you want to do. There are a lot of jobs out there and a lot of different universities. Sometimes, it kind of feels like they are not quite trained to handle that mass, that amount of knowledge.” – Shannara McFarlane

“I actually had really good careers advice when I was in school. We had a careers officer and just before we were leaving school, we were all given an appointment for a certain time to go and see her to talk about where we were going to go after school, any future plans after college, and she would give us like the booklets of the different colleges, different advice on the courses you wanted to do.” – Jessie Fuge

“I have received careers advice, but I’ve not found it very useful because there’s not been enough offered.” – Kheti Ncube

71. Roedd Comisiynydd Plant Cymru o'r farn bod gwir angen am wella'r ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau gyrfaoedd sydd ar gael i blant a phobl ifanc:

“In their Annual Report 2012/13 [Funky Dragon] found that 71.9% of the young people they surveyed for their research project, *Funky’s United Nations Challenge*, felt that they were unable to or didn’t know how to meet with careers advisors in schools. They also found that the majority of young people surveyed had not used the internet to access careers advice. This finding is further reinforced by 78.6% of those young people surveyed, at risk of being excluded, had not used the internet to access careers advice, and that in general, many young people were unaware of the post-16 opportunities available to them.”²⁶

72. Dywedodd Gyrfa Cymru wrthym:

²⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig AYP 09, Comisiynydd Plant Cymru

“One of the developments we are leading on at the moment is an online prospectus and application process for all provision for 16 to 18-year-olds. What we hope that will do—and it is a massive technological undertaking—is raise the awareness of young people about the range of opportunities that are available to them, because our research shows that, despite the best efforts of our staff, certainly within schools, there is a lack of awareness of some of the routes that are available out there.”²⁷

73. Yn ôl Comisiynydd Plant Cymru, mae'n hanfodol bod pobl ifanc yn cael y lefel gywir o wybodaeth, cefnogaeth ac arweiniad, ac mae mawr angen am wella'r lefelau ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau gyrfaoedd sydd ar gael, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth am gyfleoedd galwedigaethol a'r Gwasanaeth Paru Prentisiaethau:

“Young people often find the employment services confusing and the information provided to them is not easy to understand.”²⁸

74. Dywedodd Menter yr Ifanc Cymru: “it is imperative that careers advice and guidance reflect the changing nature of the labour market and offer young people the chance and opportunities to develop key 21st century employability skills.”²⁹

75. Dywedodd Gyrfa Cymru mai cymorth wedi'i deilwra sydd fwyaf effeithiol wrth chwilio am swyddi a helpu pobl i gael gwaith:

“So, what we find works best is when either our staff or the agencies that we work with in partnership sit down with young people, identify their individual needs and then produce a programme, often a multi-agency programme, that addresses the specific issues that they face. You cannot generalise about the needs of young people in this category. Some people may need help with CVs and others will not; some people may need help with confidence building, resilience and decision making. So, it is very individual and we find that it is about that approach, where you have a face-to-face diagnostic or interview with a young person and really get under the skin of the issues that they face.”³⁰

²⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 259, 6 Tachwedd 2014

²⁸ Ibid

²⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig AYP 10, Menter yr Ifanc Cymru

³⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 228, 6 Tachwedd 2014

76. Ategwyd y farn hon gan y bobl ifanc a oedd yn bresennol yn Info-Nation, a ddywedodd fod angen siarad â pherson ac nid â gwefan i gael cyngor ar yrfaedd, a bod angen angerdd ar y person hwnnw i wneud ei waith.

Gyrfa Cymru

Cyllid

77. Yn ystod y broses graffu ar gynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16, dywedodd y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg fel a ganlyn:

“Careers Wales is taking quite a significant budget hit, and Members will be aware that it has only just been reorganised from the previous arrangement of a number of different Careers Wales companies across Wales to an internal Government organisation that is unified. It gives us the opportunity, since there is such a newly formed organisation, to refocus completely what its work will be, as the Minister has already said. That refocus will very much concentrate on online and web-based systems.

“We will be protecting the one-to-one service for the hardest-to-reach youngsters and those in danger of being not in education, employment or training. We have a new programme of targeting those youngsters as soon as we become aware of them in our school system. A named worker will be allocated to those young people—it might be a schoolteacher, a Careers Wales adviser or some other person in the education environment—and that person will track that young person all of the way through, making sure that the one-to-one appointments are still available to them from Careers Wales under its new remit. One-to-one appointments will drop by about 50%, we anticipate, but those that remain will be targeted at those youngsters who need that one-to-one intervention the most.

“The rest will be an enhanced web service. We are in the process of renegotiating the web arrangements. We will be doing a lot of work on online chat. We know from surveys of young people that webchat, as it is called, is a very popular way of doing it. Young people, as we all know, do not do much on the phone these days; they do everything online. So, we are going to have webchats and web rooms, where people can discuss particular areas of interest to them, and

they will be able to request a one-to-one interview, but it will not be a matter of course.”³¹

78. Dywedodd Gyrfa Cymru wrthym:

“The pressures that we face are going to be challenging and there will need to be a significant change to the services that we deliver—at least some of those services; it may well mean fewer young people accessing face-to-face support. It will probably have a further impact on the adult services that we provide. In all of those difficult decisions, however, we will keep coming back to the needs of the individual and focusing whatever resource that we have on those individuals who need our support most.”

79. Fodd bynnag, dywedodd y rhai a oedd yn bresennol yn ein digwyddiad yn Abertawe nad oedd yn hawdd i bawb ddefnyddio'r dechnoleg, a dywedodd y bobl ifanc yn InfoNation y byddai'n llawer gwell ganddyn nhw gael cyngor gyrfaoedd gan berson yn hytrach na chan wasanaeth ar-lein.

80. O ystyried y pwys y mae'r ymatebwyr wedi'i roi ar gymorth un-i-un, rydyn ni'n pryderu am allu Gyrfa Cymru i ddarparu'r lefel hon o wasanaeth, yng ngoleuni'r cwtogi diweddar ar ei gyllid a'r newidiadau i'w gylch gwaith.

Argymhellwn yn gryf fod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod Gyrfa Cymru yn darparu cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd wyneb yn wyneb ar gyfer pob person ifanc sydd ei angen.

Ymgysylltu â darparwyr hyfforddiant ôl-16

81. Mynegodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru bryderon nad oedd digon o froceriaeth, cydgysylltu a chymorth rhwng ysgolion, colegau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith ôl-16. Credai bod hynny'n niweidio gallu pobl ifanc i fanteisio'n llawn ar y cyfleoedd perthnasol a oedd ar gael iddyn nhw.

82. Dywedwyd wrthym:

“One of the big barriers is the huge perception in terms of staying on in school and staying on in institutions, to be honest, with very little understanding of the world of work that is outside in your local communities. There is a perception job for us to do in moving people into work, with parents and peers. Youngsters are not even aware of

³¹ Cofnod y Trafodion, paragraffau 42-44, 16 Hydref 2014

the opportunities that are available to them on their doorstep, and that is a big piece of work that, collectively, we need to do.”³²

83. Aeth ymlaen i amlinellu'r anawsterau a achosir am na chaniateir mynd i mewn i ysgolion i siarad am y cyfleoedd y tu allan i'r ysgol:

“The problem that we face with it all is that, when we meet an employer and we talk to them about taking on young people, the employers are keen to get involved, but if we are only getting referred those people who are really hard to help, their expectations are slightly higher than that, and if we are not getting a stab at those youngsters who have more potential - there is not an easy phrase for it - we could engage with as many employers as we liked, but if we cannot supply them with those young people who are going to be great in their businesses, it kind of falls flat.

“The answer is that we cannot allow schools to continue to do it. It is not right for the young people, and it is not based around them.”³³

84. Soniodd Colegau Cymru am y problemau a achosir am nad ydyn nhw'n gallu mynd i ysgolion i siarad â'r myfyrwyr, yn enwedig myfyrwyr chweched dosbarth:

“It is one of our ongoing problems, which is fundamentally driven by the fact that, if a school has a sixth form, we just do not get access to those students to share information and make them aware, and because we do not get access in many cases, parents do not know or understand what is available. Do they really know what an apprenticeship is? Do they really know that, with an apprenticeship, you can progress to higher education? I am afraid that they do not, in many cases.”³⁴

³² Cofnod y Trafodion, paragraff 118, 20 Tachwedd 2014

³³ Cofnod y Trafodion, paragraff 161, 12 Tachwedd 2014

³⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 216, 12 Tachwedd 2014

Ymgysylltu â chyflogwyr

Ymgysylltu â chyflogwyr

85. Yn ôl Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru:

“I think that there is a crucial role for employers to play in the whole of this across the whole of Wales, but for employers to be able to play their part in terms of this, the gates of the school will need to be open. If the gates of the school remain closed and there is no employer engagement, with employers coming into the school, we are never going to break this, if you want me to be frank.”³⁵

86. Awgrymodd Menter yr Ifanc Cymru:

“Meaningful employment experiences and opportunities to bring ‘business into the classroom’ may help young people make the school to work transition.”³⁶

87. Dywedodd y cynrychiolwyr addysgu wrthym am y gwaith yn eu hysgolion i feithrin perthynas gyda chyflogwyr lleol. Hefyd, soniodd Pennaeth Ysgol y Preseli am y rôl y gallai llywodraethwyr ysgol ei chwarae yn hyn o beth:

“...fe fydd yna ganran o lywodraethwyr sydd yn gyflogwyr. Yn ein hysgol ni, rydym wedi sefydlu'r hyn sy'n cael ei alw'n banel diwydiant, neu banel cyflogwyr. Mae'r panel cyflogwyr yn cwrdd unwaith bob tymor. Y cylch gorchwyl penodol yw i fonitro ac i arfarnu rhaglen addysg yn gysylltiedig â byd gwaith, a hefyd i roi cyngor i athrawon ynglŷn â'r hyn y mae cyflogwyr am ei gael. Mae yna gynrychiolwyr, er enghraifft, o'r CITB ac yn y blaen, ar y panel hwn. Mae e wedi cael ei sefydlu dros amser ac yn amlwg wedi arwain at nifer fawr o weithgareddau arbennig o dda.”³⁷

“Mae'r rhaglenni yna, sydd wedi tyfu mas o'r panel cyflogwyr, yn dangos ichi, efallai, sut mae partneriaeth a phartneriaethau gyda chyflogwyr yn gallu rhoi cyngor i ysgolion ar beth maen nhw'n edrych amdano.”³⁸

³⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 141, 12 Tachwedd 2014

³⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig AYP 10, Menter yr Ifanc Cymru

³⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 40, 15 Ionawr 2015

³⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 42, 15 Ionawr 2015

88. Ymateb swyddog y Dirprwy Weinidog oedd:

“Picking up on the point that you made, that people do not always know what they need to look for, we are linking that to a much better approach to employer engagement with schools, right through from age 11 in year 7 all the way through, up to age 18. We are looking at an enhanced employer engagement approach where we want to encourage employers to link with schools and colleges so that young people have real access to individuals who are engaged in the world of work.”

Argymhellwn fod adolygiad y Dirprwy Weinidog o ymgysylltu â chyflogwyr yn cael blaenoriaeth ac yn cael ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Gorffennaf 2015. Gofynnwn i'r Dirprwy Weinidog ysgrifennu atom gan roi rhagor o fanylion am yr adolygiad a'r amserlen.

Rhwystrau ychwanegol i bobl ifanc sy'n agored i niwed

Pobl ifanc ag anabledd

89. Yn ystod yr ymchwiliad, edrychwyd ar y gofynion ychwanegol sydd gan rai pobl ifanc wrth chwilio am waith.

90. Yn ôl Barnardo's Cymru:

“Mae tystiolaeth yn awgrymu nad yw pobl ifanc ag anableddau ac anableddau dysgu wedi'i darparu ar gyfer cyflogaeth fel cyrchnod newid i fyd oedolion ac yn aml maent yn cael eu hamddifadu o gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant. Mae pobl ifanc ag anableddau yn parhau ddwywaith mwy tebyg o beidio bod mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth na'r rhai sydd heb anableddau.”³⁹

Agweddau negyddol a gwahaniaethu yn y gweithle

91. Roedd RNIB Cymru a'r Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar (NDCS) o'r farn bod hyn yn rhwystr i ddod o hyd i waith. Dywedodd RNIB wrthym:

“One Department for Work and Pensions study found that nine out of ten employers rated blind and partially sighted people as 'difficult' or 'impossible' to employ.”⁴⁰

92. Meddai NDCS:

“Research for the Royal National Institute for the Deaf (now Action on Hearing Loss) in 2007 found that even at a time of near full employment severely and profoundly deaf people were four times more likely to be unemployed than the general population, with negative attitudes from employers being seen as the main barrier.”⁴¹

Cyngor, arweiniad a chefnogaeth i bobl ifanc sy'n agored i niwed

93. Yn ôl Comisiynydd Plant Cymru, mae llawer o blant a phobl ifanc ag anableddau dysgu ac anghenion addysgol arbennig yn wynebu anawsterau sylweddol o ran cael cyfleoedd a gwasanaethau sy'n eu galluogi i ddatblygu'r sgiliau a'r profiad angenrheidiol i sicrhau cyflogaeth. Roedd yn bryderus am y prinder cyfleoedd gwaith, hyfforddiant ac opsiynau cymorth sydd ar gael

³⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig AYP 02, Barnardo's Cymru

⁴⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig AYP 05, RNIB Cymru

⁴¹ Tystiolaeth ysgrifenedig AYP 06, Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar

iddyn nhw a oedd yn cymryd eu hanghenion a'u gwendidau penodol i ystyriaeth. Dywedodd pobl ifanc bod angen mentor arnyn nhw yn y ganolfan waith (yn enwedig ar gyfer pobl ifanc ag anableddau dysgu), a chyfeiriwyd at driniaeth wael/diffyg parch at bobl ifanc gan staff y gwasanaeth cyflogaeth. Soniwyd bod angen amrywiaeth well o gyfleoedd megis gwirfoddoli ac addysg.

94. Dywedodd Cyngor Bro Morgannwg:

“Specifically those with a disability need a benefit system that is flexible enough to allow young people to work, but that does not penalise the young person allowing them to earn less than on benefits or a system that does not allow these young people to re-access benefits should employment not work (for whatever reason). There is a need for more tier 2 services, organisations such as Innovate Trust that will engage young people with disabilities to help them build their soft and hard skills, through a vocational route, and better connections with local employers. Employers need to be more aware of young people with disabilities or care leavers, and provide opportunities of engagement through schemes, that will benefit the employer in putting something back in the community as well as advantaging the young person in gaining skills and confidence.”⁴²

95. Yn ôl RNIB Cymru, er bod amryw gynlluniau ar gael i gefnogi pobl ifanc i gael gwaith, yn ei brofiad ef roedd pobl ifanc â nam ar eu golwg yn ei chael yn anodd cael gwybodaeth am y cynlluniau sydd ar gael, gan gynnwys Mynediad i Waith a dulliau eraill o roi cymorth.

96. Yn ei thystiolaeth, dywedodd y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg:

“The lead worker is designed to assist people with the most needs. That is why we talk all of the time about getting the right lead worker in place, making sure that that person has the right training and skills to broker for the young person all of the things that they need to meet their needs. I specifically mentioned earlier looked-after children, for example. You may need lead workers with specific training in order to be able to conquer some of the barriers that people in the looked-after system encounter. Exactly the same is the case for people with additional learning needs and other specific barriers.”

⁴² Tystiolaeth ysgrifenedig AYP 16, Cyngor Bro Morgannwg

Y broses recriwtio

97. Ym mhrofiad RNIB Cymru, un o'r rhwystrau allweddol sy'n wynebu pobl ddall a rhannol ddall yw'r cynnydd mewn hysbysebu cyfleoedd ar y we a phrosesau recriwtio ar-lein. Nid yw pobl sydd wedi colli'u golwg yn medru manteisio ar y rhain. Dywedodd:

“Many websites are not compatible with the accessibility software that people with sight loss use (for example, screen magnification or screen readers). As a result, often one-to-one support is essential in assisting people to locate job opportunities and apply for them. This key stumbling block means that many visually impaired jobseekers simply don't get past the first hurdle.”⁴³

Teithio a thrafnidiaeth

98. Dywedodd RNIB fod symudedd a sgiliau teithio annibynnol yn allweddol i bobl ifanc dall a rhannol ddall gael gwaith. Gan nad ydyn nhw'n gallu gyrru, maen nhw'n dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus neu dacsis, neu gymorth gan deulu a ffrindiau i fynd o gwmpas. Mewn ardaloedd gwledig, yn benodol, gall hyn gyfyngu ar eu gallu i ddod o hyd i waith a chyrraedd y gwaith. Lle mae trafnidiaeth gyhoeddus ar gael, mae angen hyder a gwytnwch i deithio'n annibynnol arni; roedd y trafferthion wrth wneud hynny ymhlith y problemau mwyaf cyffredin a gododd aelodau'r RNIB.

99. Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru wrthym fod pobl ifanc anabl yn poeni am brinder gwasanaethau a phroblemau sy'n gysylltiedig â threfi a dinasoedd (er enghraifft palmentydd) sy'n ei gwneud yn anodd iddyn nhw fynd o gwmpas.

Pobl ifanc sy'n derbyn gofal, ac yn gadael gofal

100. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Rhwydwaith Maethu Cymru:

“Looked after children and Care Leavers remain one of the most vulnerable groups of children and young people, their outcomes in terms of educational achievement, independent living and stable employment remain of acute concern. They require a unique set of interventions and support in recognition of their lack of family support, and vulnerability. It is critical that statutory services working in partnership with the voluntary sector are able to prioritise and

⁴³ Tystiolaeth ysgrifenedig AYP 05, RNIB Cymru

support improved employment outcomes for this vulnerable group of young people.”⁴⁴

101. Mae'n mynd ymlaen i ddweud bod nifer o resymau am ganlyniadau gwael pobl ifanc sy'n gadael gofal, o ran cyflogaeth:

“Care leavers have a much lower educational attainment than their peers with the resulting lack of qualifications then impacts on their chances of employment. Between 1 April 2013 and 31 March 2014, 663 care leavers aged 16 or over ceased being looked after and 72 per cent of these children had at least one qualification. The proportion of care leavers aged 16 or over with 5 or more GCSEs at grade A* to G was 37 per cent in 2013-14. In 2013-14, 77 children in this cohort (12 per cent) achieved 5 or more GCSEs at grade A* to C.

“Statistics suggest that looked after children mostly come from a very disadvantaged population and many have had disrupted schooling before they became looked after. In the past this has been used as an ‘excuse’ as to why looked after children have such poor levels of attainment. Increasingly it is being recognised that the public care system may itself be contributing to these poor outcomes. Even when this is not the case, there is always more that can be done to ensure that looked after children achieve their potential.”

102. Mae'n awgrymu bod saith ffactor yn cyfrannu at y canlyniadau gwael ymhlith plant sy'n derbyn gofal:

- Diffyg uchelgais;
- Ansefydlogrwydd o ran lleoliad;
- Cyfraddau uchel o wahardd o'r ysgol a darpariaeth addysgol o ansawdd gwael;
- Prinder cymorth adferol;
- Gadael gofal maeth yn rhy ifanc;
- Cyraeddiadau addysgol isel y gofalwyr maeth;
- Methiant rhianta corfforaethol.

103. Mewn ymateb i'r cwestiwn "Pa gymorth sydd fwyaf effeithiol wrth helpu pobl sy'n gadael gofal i gael gwaith?" dywedodd Rhwydwaith Maethu Cymru mai'r cymorth mwyaf effeithiol fyddai gwella cyrhaeddiad addysgol:

⁴⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig AYP 18, Rhwydwaith Maethu Cymru

“No single measure or activity will transform educational outcomes for looked after children and care leavers. To achieve this will require sustained investment in the foster care system and it will require action to improve stability and the Fostering Network are currently working with Welsh Government to develop regulations to underpin Part 6 of the Social Services and Wellbeing Act 2014, around the promotion of placement stability.”⁴⁵

104. Aeth ymlaen i ychwanegu bod angen canolbwyntio ar wella cyrhaeddiad addysgol plant mewn gofal a'u hannog i fynd ymlaen i addysg uwch ac addysg bellach. Byddai hynny yn ei dro yn effeithio ar allu pobl ifanc sy'n gadael gofal i gael gwaith ystyrlon:

“The Fostering Network have worked in partnership with Welsh Government to inform a strategy for the educational attainment for looked after children, we strongly believe a similar piece of work should be undertaken for care leavers.”⁴⁶

Digartrefedd neu brinder llety addas

105. Dywedodd Barnardo's Cymru wrthym:

"Rhaid i bobl ifanc sy'n gadael gofal ymdopi â'r her o newid cywasg a chyflymedig i gyd oedolion (o'i gymharu â'u cymheiriaid). Mae'n amlwg os yw'r rhai sy'n gadael gofal i gael y siawns gorau i lwyddo mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, rhaid iddynt gael sylfaen gadarn i gychwyn arni. Rhaid bod llety addas, mynediad at ofal iechyd, a chefnogaeth ariannol a phersonol briodol wedi'i sicrhau ar eu cyfer. Yn rhy aml, mae'r rhai sy'n gadael gofal yn cael eu gorfodi i roi addysg, hyfforddiant a chyflogaeth o'r neilltu wrth iddynt wynebu'r her o fyw yn annibynnol am y tro cyntaf.”⁴⁷

106. Aeth ymlaen i ddweud:

"Mae digartrefedd bron yn treblu siawns person ifanc o ddatblygu problemau iechyd meddwl ac yn aml cysylltir digartrefedd â phroblemau camddefnyddio sylweddau. Gall pobl ifanc wynebu anawsterau gwirioneddol i gael at gefnogaeth ar gyfer eu hanghenion ychwanegol er mwyn darparu'r adnoddau personol a sefydlogrwydd sydd ei angen i ymgysylltu mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant.

⁴⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig AYP 18, Rhwydwaith Maethu Cymru

⁴⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig AYP 18, Rhwydwaith Maethu Cymru

⁴⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig AYP 02, Barnardo's Cymru

Ar yr un pryd, adroddwyd bod defnyddio cyfeiriad hostel yn rhwystwr mawr wrth i bobl ifanc wneud cais am waith gan bobl ifanc ac maent hefyd wedi siarad am y 'magl tldi' yng nghyswllt sicrhau gwaith fydd yn rhoi cyflog digon mawr i dalu am gostau tŷ wrth iddynt ymdrechu i sicrhau llety." ⁴⁸

107. Yn ei dystiolaeth lafar, soniodd Barnardos Cymru am achos diweddar a oedd yn dangos yr union broblem hon:

“A young woman who had worked very hard to get catering qualifications to get a job in a pub restaurant was then immediately disadvantaged and was looking to give it up because she was no longer able to support her tenancy, because she immediately lost half of her housing benefit. So, the wages that local employers are able to give to those young people, who are on a very low rung, will not then enable them to sustain a tenancy. They are not living at home with their families; they are living independently because they have left the care system.”⁴⁹

108. Codwyd y mater hwn hefyd gan y bobl a ddaeth i'n digwyddiad yn Abertawe, a ddywedodd y gall derbyn swydd olygu bod pobl ifanc sydd wedi bod yn ddiartref yn colli eu llety. Maen nhw'n awyddus i weithio, ond mae angen cymorth wedi'i deilwra arnyn nhw. Mae'n haws i'r rheini sy'n dal i fyw gyda'u rhieni.

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i fynd i'r afael ag anghysonderau yn y system budd-daliadau, er enghraifft, yr anhawster y mae pobl ifanc yn ei wynebu o ran parhau â'u tenantiaeth os caiff eu budd-dal tai ei dorri oherwydd eu bod wedi derbyn swydd nad yw'n talu'n dda.

Pobl ifanc anodd eu cyrraedd

109. Soniodd nifer o'r ymatebwyr am y rôl bwysig y gall y trydydd sector ei chwarae wrth ymgysylltu â phobl ifanc anodd eu cyrraedd, a'u cefnogi.

110. Roedd gennym ddiddordeb arbennig yng ngwaith Barnardos Cymru a Llamau o ran helpu i baratoi'r bobl ifanc hyn ar gyfer gwaith; yr hyn y maen nhw'n ei alw'n "micro gamau".

111. Dywedodd Barnardo's Cymru wrthym:

⁴⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig AYP 02, Barnardo's Cymru

⁴⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 96, 6 Tachwedd 2014

“Mae’n anodd iawn trio esbonio i bobl ifanc nad ydynt wedi gwneud yn dda yn yr ysgol o gwbl, efallai, achos eu bod wedi cael bywyd eithaf chaotic neu wedi byw mewn gofal, nad ydyn nhw’n gallu, gyda dim cymwysterau o gwbl, mynd i swydd mewn un naid.”⁵⁰

112. Cytunodd Llamau, gan ddweud:

“They think that they are work-ready because they want a job. If they are motivated, they think that they can walk straight into one, and we have to work with them to make them see the very small steps that they need to take to improve. Work tasters, again, are incredibly effective. On the life skills project, last year, we got 63 young people to do tasters, and that is a very small step to say that they understand the skills and behaviours that they need. It is about getting them to take the small steps. They cannot go straight into a job. If they could, they would. The very fact that they have not shows that they need support from Barnardo’s and Llamau to learn what the behaviours are, to learn the small steps and to make gradual progression.”⁵¹

113. Aeth Barnardos Cymru ymlaen i ddweud:

“What we know about, as Llamau does, is how you work with those most disadvantaged young people, who are furthest away from the job market, and we can provide that personal close support with those small numbers. What we found from the evaluation was that what you have to have for those programmes to be successful is for them to be tailor-made for individuals, using personal outcomes, rather than tick-box outcomes.”⁵²

Dylai Llywodraeth Cymru ariannu rhagor o gyrsiau hyblyg a all gynnwys pobl ifanc sydd angen rhagor o amser i sicrhau’r canlyniadau sy’n ofynnol.

Cymorth ymarferol

114. Clywsom hefyd am y cymorth ymarferol iawn y gall y trydydd sector ei ddarparu. Dywedodd Cymunedau yn Gyntaf y Barri ei fod yn cynnig ad-daliad i bobl ifanc o’u costau teithio am y mis cyntaf o deithio i’w lle gwaith ac

⁵⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 80, 6 Tachwedd 2014

⁵¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 81, 6 Tachwedd 2014

⁵² Cofnod y Trafodion, paragraff 86, 6 Tachwedd 2014

adref, os ceir llythyr gan y cyflogwr yn cadarnhau bod ganddyn nhw waith. Gallan nhw hefyd helpu gyda dillad cyfweliad, a pharatoi at gyfweliadau.

115. Dywedodd Llamau wrthym:

“We have also found in our experience of working with young care leavers that even when we have set up work placements and tasters, it is about the amount of support that they need to go those very first days, because they do not have a parent to nag them, get them up, make sure they have got clothes and make sure they have had breakfast. So, we often have to provide that support, and there has to be a support worker to provide that transition because otherwise they are not going to make it through the door on the first day. So, it is about all that extra support, which you automatically do for your own children and you take for granted, but these young people do not have that support out there.”⁵³

116. Hefyd, dywedodd Barnardos Cymru:

“Our part in that work was texting somebody asking, ‘Are you out of bed? Are you there? You’ve got to get there’, and being quite hard and cajoling, as your mum or dad would do if you were at home. That is what we need to be doing. ‘We care enough about you that we want you up, ready, had your breakfast and you’re going to work or education, and you’re going to be there’.”⁵⁴

Cyllid

117. Clywsom am y pwysigrwydd a'r anhawster o fesur llwyddiant rhaglenni fel y prosiect Sgiliau Bywyd a'r cynllun Symud Ymlaen:

“Mae’n bwysig iawn fod yn rhaid i chi brofi a ydych wedi bod yn effeithiol ai peidio. Os ydych wedi cael arian, er enghraifft yn Wrecsam ac yn y Rhyl, trwy brosiect Life Skills y Big Lottery fund, mae’n rhaid i chi wneud yn siŵr eich bod yn gallu gwneud yr evaluation ar ddiwedd yr amser hwnnw, a’ch bod yn gallu dod i lawr yn gyson beth sydd wedi digwydd trwy’r rhaglen, a hefyd eich bod yn gallu mesur, fel maent yn ei ddweud yn Saesneg, y *distance travelled*.”⁵⁵

⁵³ Cofnod y Trafodion, paragraff 105, 6 Tachwedd 2014

⁵⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 107, 6 Tachwedd 2014

⁵⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 78, 6 Tachwedd 2014

“It is very difficult to price the worth of these programmes compared with young people’s life experiences. So, it is a true invest-to-save, if you can make it work.”⁵⁶

Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu’r gwaith ar gydgysylltu a chynllunio’r cymorth ariannol presennol ar gyfer y trydydd sector er mwyn lleihau dyblygu ac i roi blaenoriaeth i roi cymorth i’r bobl ifanc anoddaf eu cyrraedd i fynd i mewn i’r farchnad swyddi.

118. Clywsom hefyd am yr anawsterau sy'n gysylltiedig ag ariannu prosiectau hyn yn y tymor byr. Dywedodd Barnardo's Cymru wrthym:

“There is another element, which is about the length of time that these programmes run for. So, the lottery funding, for instance, was for four years. So, those programmes that I am talking about now have now ended. I have not got any continuance funding, and you think, ‘Right, there was a large group of young people who were helped over a period of four years: what happens now? Are there other programmes?’ We are constantly trying to find funding to re-energise these programmes and make them happen. We talk about respect for young people, but what are we saying? That you were okay as a guinea pig and we tried it for four years and that is it now—we have done that and we will write up the results.”⁵⁷

119. Cefnogwyd y farn hon gan Llamau:

“Similarly with the life skills project, again, it was a very successful pilot. It helped us gain the Symud Ymlaen contract, we know that, but we want it to continue. It was a successful pilot, and there should then be mainstream funding coming in.”⁵⁸

⁵⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 115, 6 Tachwedd 2014

⁵⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 115, 6 Tachwedd 2014

⁵⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 117, 6 Tachwedd 2014

Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

120. Credai Working Links fod ymrwymiad Llywodraeth Cymru i bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant, a'r gefnogaeth iddyn nhw, yn amlwg o'r gwahanol gynlluniau a lansiwyd ond nid oedd yn sicr a oedd y cynlluniau hyn yn cyrraedd y bobl ifanc sydd angen y gwasanaeth fwyaf. Dywedodd:

“Our referrals show us that many young people that come onto our programme have dis-engaged from mainstream education at an early age and have been lost to various support services from then on. We are probably one of the few organisations that they have engaged with for quite some time and we make the assumption that this is mainly due to the mandation element of the Work Programme. The Welsh Government’s not in employment, education or training strategy needs to focus more on this more ‘difficult to engage’ sector if it is to be effective.”⁵⁹

Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid Llywodraeth Cymru

121. Yn ôl Comisiynydd Plant Cymru:

“Provisions such as the Youth Engagement and Progression Framework and Jobs Growth Wales have, at least in the first instance, had positive impacts on improving the employment opportunities available to young people in Wales.”⁶⁰

122. Lansiwyd Cynllun Gweithredu *Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid Llywodraeth Cymru* ym mis Hydref 2013. Nod y Fframwaith yw lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant dros gyfnod o ddwy flynedd. Clywsom ei fod yn seiliedig ar yr arferion gorau sydd eisoes yn bodoli ymysg awdurdodau lleol.

123. Yn ymarferol, dylai pobl ifanc gael dau gynnig newydd o dan y Fframwaith: (a) penodi un pwynt cyswllt (gweithiwr arweiniol) ar gyfer y bobl ifanc sydd fwyaf tebygol o ymddieithrio er mwyn helpu i sicrhau y caiff cymorth ei roi mewn ffordd gydgysylltiedig a chydlynol, a (b) 'gwarant ieuencid' a fydd yn helpu i sicrhau bod pob person ifanc yn cael lle addas ym myd dysgu ar ôl 16 oed.

⁵⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig AYP 12, Working Links

⁶⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig AYP 09, Comisiynydd Plant Cymru

124. Mae'r Cynllun yn rhoi rôl arweiniol strategol ac allweddol i awdurdodau lleol yn eu hardal leol. Bydd angen iddynt weithio'n agos gyda Gyrfa Cymru, gwasanaethau ieuenctid, ysgolion, darparwyr a phartneriaid eraill i ddatblygu cynlluniau ar gyfer gweithredu'r Fframwaith.

125. Canfu dogfen Swyddfa Archwilio Cymru, *Lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant*, Gorffennaf 2014, fel a ganlyn:

“...fod Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa dda i helpu i leihau nifer y bobl ifanc rhwng 16-18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) ond nad yw mewn sefyllfa gystal i leihau nifer y bobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET...”⁶¹

126. Teimlai Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam hefyd bod strategaeth Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd fel petai wedi'i hanelu at bobl ifanc rhwng 16 ac 18 oed, ac nad oedd unrhyw ffocws go iawn ar gyfleoedd addysg, cyflogaeth a hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc rhwng 19 ac 24 oed.

127. Ar 16 Rhagfyr 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru grynodedb o ganfyddiadau interim ei gwerthusiad ffurfiannol o'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid.⁶²

128. Rhai o'r prif ganfyddiadau yw bod yr holl awdurdodau lleol wedi gwneud cynnydd o ran gweithredu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid, er bod rhai awdurdodau lleol ymhellach ar y blaen nag eraill. Mae pob un wedi penodi Uwch-swyddog Cyfrifol a Chydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu, ond amrywiol yw ansawdd rhai o'r cynlluniau gweithredu. Mae'r systemau adnabod yn gynnar wedi'u datblygu'n gymharol dda ond yn gyffredinol mae'r prosesau ar gyfer adnabod pobl ifanc sydd mewn perygl o ddieithrio yn llai datblygedig ar gyfer y rhai rhwng 16 ac 18 oed. Mae'r trefniadau ar gyfer gweithwyr arweiniol ar y gweill mewn sawl awdurdod lleol ond mae'n annhebygol y cyrhaeddir y garreg filltir yn y cynllun gweithredu cenedlaethol.

Adnabod yn gynnar

129. Dywedodd Working Links wrthym:

⁶¹ Tystiolaeth ysgrifenedig AYP 01, Swyddfa Archwilio Cymru

⁶² Llywodraeth Cymru, [Gwerthusiad ffurfiannol o'r fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid](#), 16 Rhagfyr 2014

“Our referrals show us that many young people that come onto our programme have dis-engaged from mainstream education at an early age and have been lost to various support services from then on.”⁶³

130. Mae'n credu y gallai ysgolion a cholegau wneud mwy i annog pobl ifanc sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant i fynd i'r afael â'r problemau fel y gellir eu cefnogi yn amgylchedd yr ysgol:

“Whether that is to provide more educational psychology support or counselling within the school environment as well as more vocational schemes, as it seems that once they dis-engaged it is too late.”⁶⁴

131. Roedd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru yn cytuno:

“With some of these complex issues that we are talking about, in terms of individuals, these opportunities are known way before they are 16, and way before they come out of what I call the compulsory education system. This is for 12, 13 or 14-year-olds, where, literally, individuals can be identified who might be wavering into potentially becoming a not in employment, education or training; we could do much more with them at that age. Sometimes, when they are 16, it is too late.”⁶⁵

132. Awgrymodd Menter yr Ifanc Cymru fod y nifer gynyddol o bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant nad oedd wedi llwyddo i bontio byd addysg a'u swydd gyntaf, yn dangos bod y cam cyntaf ar yr ysgol gyflogaeth yn dod yn anoddach o hyd. Yn ei barn hi:

“It is therefore important that provision focuses on supporting young people in making links into work, from primary school onwards. Helping young people to understand that their career planning starts here not when they ‘leave school’.”⁶⁶

133. Dywedodd Gyrfa Cymru wrthym:

“In terms of the early interventions, again, this is something that we are continually developing, but we have made progress in becoming better at identifying the needs of young people. So, we work with schools very closely and we track young people using a range of indicators, including attendance and various other factors, to allow us

⁶³ Tystiolaeth ysgrifenedig AYP 12, Working Links

⁶⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig AYP 12, Working Links

⁶⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 128, 20 Tachwedd 2014

⁶⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig AYP 10, Menter yr Ifanc Cymru

to target our resources more efficiently. I think that has been a very positive step over the past couple of years.”⁶⁷

Rhannu data er mwyn gwella adnabod yn gynnar ac olrhain

134. Awgrymodd Swyddfa Archwilio Cymru fod y broses o rannu data yn datblygu'n well yn y grŵp oedran iau nag yn y grŵp oedran dros 18 oed. Yn y grŵp hwnnw roedd angen gwneud llawer mwy o waith i ddatblygu'r broses o rannu data sy'n angenrheidiol gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau.

135. Dywedodd Gyrfa Cymru wrthym:

“The youth engagement and progression framework has, I think, clarified the responsibilities of a wide range of agencies and we are now better able to use the data that we have to refer young people to the most appropriate service. I think that, however, coming back to the 16 to 18-year-olds, having the data that we now hold helps to co-ordinate that provision, and we would be delighted to try to extend that up to the age of 25, but there are data-sharing issues there, because young people who are unemployed go to the jobcentre and Jobcentre Plus is the lead organisation working with them.

“We work very closely with Jobcentre Plus, and we have an excellent relationship with it, but, as that is not a devolved function, there are data-sharing issues that we are currently working through with it. However, it is working towards the same ends as we are, in terms of a positive outcome for clients, and we are looking to see how we can get better at sharing data about young people up to the age of 25.”⁶⁸

136. Yn ôl y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg:

“In terms of the current cohort, we are having a provision-mapping exercise to make sure that we can get as much data as we possibly can. I took a legislative consent motion through Plenary yesterday about data sharing, which is very much designed to get the outcome data that we need in order to track the young people and to try to get them back into a programme that best suits their needs.”⁶⁹

137. Aeth swyddog y Dirprwy Weinidog ymlaen i ddweud:

⁶⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 256, 6 Tachwedd 2014

⁶⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 261, 6 Tachwedd 2014

⁶⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 87, 26 Tachwedd 2014

“Certainly, in terms of data collection, at a local level, all authorities have either got or are working towards an approved Wales accord on the sharing of personal information scheme, so that the data sharing between agencies can help. Once we get beyond the age of 18, there are much greater difficulties in terms of data protection, and one of the issues with data sharing with DWP is sharing information at an individual level. It is very complex. That does not mean that we are not working to look at how we can improve it, but it is not a simple thing to do.”⁷⁰

Gweithwyr arweiniol

138. Croesawodd Chwarae Teg y dull integredig a amlinellwyd yn y fframwaith, a'r gweithwyr arweiniol sy'n rhan ohono. Credai fod hynny'n caniatáu ar gyfer dull mwy personol o gefnogi cyflogaeth a bod hynny'n hanfodol os yw pobl ifanc i gael cymorth i ddod o hyd i swydd gynaliadwy.

139. Roedd Gyrfa Cymru hefyd, yn croesawu'r cynnig i gyflwyno gweithiwr arweiniol ond roedd yn pryderu pa mor gynaliadwy oedd hynny yn y tymor hwy:

“The lead worker approach is sensible and it is working, but there is not always sufficient provision out there. Every area has had its cuts, whether it is the youth service or the third sector, and these organisations often will undertake the lead worker role for the individual.”⁷¹

140. Yn ei adroddiad gwerth am arian ynghylch Pobl Ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant a'r Adolygiad o'r gwaith cysylltiedig mewn cynghorau lleol, daeth Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r casgliad canlynol:

“Mae'r Fframwaith yn nodi rôl bwysig ar gyfer gwasanaethau ieuencid fel darparwyr gweithwyr arweiniol ar gyfer pobl ifanc sydd â'r angen mwyaf. Roedd yr adolygiad o'r cynghorau yn dangos bod y ddealltwriaeth am gyfrifoldeb cynghorau yn anghyson, fel y nodir yn y ddogfen *Ymestyn Hawliau: Cynorthwyo Pobl Ifanc yng Nghymru (2000)*, ar gyfer arwain a chydgyssylltu gwasanaethau ieuencid ar gyfer pobl ifanc 16 -24 oed a fydd yn annog pobl ifanc (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) i gyfranogi'n effeithiol ym maes

⁷⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 157, 26 Tachwedd 2014

⁷¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 254, 6 Tachwedd 2014

addysg a hyfforddiant, manteisio ar gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth; a chyfranogi'n effeithiol a chyfrifol ym mywyd eu cymunedau, a bydd yn eu galluogi a'u cynorthwyo i wneud hynny.”⁷²

141. Yn ei ymateb i hyn, dywedodd y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg fel a ganlyn:

“I think we have got some very good practice emerging across the sector. There are differences in local authorities at the moment, because they started in a different place, so you cannot expect them in one year to have all got to the same place. Nevertheless, they are all doing very well and we are expecting the targets that the programme sets to be met.”⁷³

142. Dywedodd y Dirprwy Weinidog hefyd bod astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru wedi'i gwneud pan oedd y fframwaith yn cael ei lunio a'i gyhoeddi ac nad oedd yn cynnwys y cynnydd a wnaed ers hynny.

143. Rydym yn cymeradwyo'r ddarpariaeth yn y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid ar gyfer gweithwyr arweiniol, ac rydym yn cydnabod ei fod yn ddwys o ran adnoddau. Fodd bynnag, ar sail tystiolaeth nifer o elusennau, credwn fod angen rhagor o fuddsoddiad.

Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu'r buddsoddiad yn y gweithwyr arweiniol ar gyfer pobl ifanc sy'n agored i niwed i sicrhau eu bod yn cael y cymorth un-i-un sydd ei angen arnyn nhw i'w helpu i ddod o hyd i waith.

⁷² Tystiolaeth ysgrifenedig AYP 01, Swyddfa Archwilio Cymru

⁷³ Cofnod y Trafodion, paragraff 64, 26 Tachwedd 2014

Rhaglenni Llywodraeth Cymru

144. Mae dewis eang ac amrywiol o gynlluniau ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru, ond clywsom dystiolaeth y gall hyn weithiau beri dryswch i bobl ifanc a chyflogwyr, a'u bod weithiau'n dyblygu ei gilydd. Yn eu barn hwy, nid yw hyn yn ddull costeffeithiol o weithredu.

Twf Swyddi Cymru

145. Yn ôl Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam:

“Jobs Growth Wales does appear to offer a positive route into full-time employment for some young people mainly those who are high achievers and are more likely to engage in employment without additional support.”⁷⁴

146. Dywedodd Grŵp Ieuenctid Sengl Digartref Arfon (GISDA) fod Twf Swyddi Cymru yn gynllun da ond y byddai'n well pe bai'n cynnig cyflogaeth am flwyddyn yn hytrach na chwe mis.

147. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Cyngor Bro Morgannwg:

“The decision by Welsh Government not to allow Work Programme customers to access JGW is unfortunate and reduces opportunities for Welsh young people. Work Programme customers in England can access ESF funding streams, but this isn't allowed in Wales, which again reduces resources for young people. This has led to numerous individuals missing out on vital training.”⁷⁵

148. Barn gymysg oedd gan y rhai a oedd yn bresennol yn ein digwyddiad yn Abertawe am Twf Swyddi Cymru. Dywedodd y cyfranogwyr ei fod yn dibynnu i raddau helaeth ar y cwmni yr oedd y person ifanc yn cael ei leoli gydag ef. Clywsom am achos lle rhyddhawyd cleient ar ddiwedd ei leoliad, a'r swydd wedyn yn cael ei hail-hysbysebu drwy Twf Swyddi Cymru. Roedd teimlad bod hyn yn broblem bosibl gyda Twf Swyddi Cymru oherwydd nad oedd disgwyl i gyflogwyr fuddsoddi'n ariannol yn y rhaglen.

149. Clywsom am broblemau gyda chyllido dwbl, er enghraifft lle na all pobl ar y Rhaglen Waith fanteisio ar Twf Swyddi Cymru. Dywedodd Cyngor Sir Fynwy wrthym hefyd nad oedd, fel awdurdod lleol, wedi gallu elwa'n llawn ar y cynllun oherwydd y meini prawf a'r cymhwyster.

⁷⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig AYP 07, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

⁷⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig AYP 16, Cyngor Bro Morgannwg

Hyfforddeiaethau

150. Yn ôl y Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol, prif amcan hyfforddeiaethau yw arfogi pobl ifanc â'r sgiliau, y cymwysterau a'r profiad er mwyn eu galluogi i symud ymlaen ar y cyfle cyntaf i ddysgu ar lefel uwch neu i gyflogaeth. Rhaglen hyfforddiant heb fod yn gyflogedig yw hyfforddeiaeth ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 ac 18 oed sy'n gadael ysgol nad ydyn nhw, fel arall, mewn addysg neu gyflogaeth ôl-16.

151. Yn ei dystiolaeth lafar, dywedodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru:

“I think there is, particularly within traineeships, a programme there that is flexible enough to identify how far that individual is away from the job market in order that they can have some engagement work, maybe in a centre, to prepare them in readiness for when they actually go into work, in a supervised position with regard to the assessors and the trainers. So, there is flexibility within that programme to manage that transition into work, depending on where that individual is.”⁷⁶

152. Fodd bynnag, dywedodd Llamau wrthym:

“With the traineeships, and certainly with the engagement and progression framework, there is still a focus on the mainstream. The strength of Llamau and Barnardo's is that we are working with young people who have not fitted into the mainstream. School? They have not attended school. School has not worked for them. They are outside the system. So, we are still striving to be included in consultations and for us to be included when traineeships are coming down, and in the engagement and progression framework.”⁷⁷

153. Cefnogwyd hyn gan Barnardo's Cymru, a ddywedodd wrthym fod y bobl ifanc y maent wedi gweithio gyda nhw mor bell i ffwrdd oddi wrth y farchnad lafur fel bod angen gwneud swm anhygoel o waith paratoi i'w cael at y pwynt lle y gallen nhw hyd yn oed ystyried hyfforddeiaeth.

154. Cymeradwywn Lywodraeth Cymru am ddiogelu'r gyllideb ar gyfer hyfforddeiaethau yn 2015-16, ond credwn, fodd bynnag, y dylai hefyd fuddsoddi yn y cyfnod sy'n arwain at hyfforddeiaethau.

⁷⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 153, 12 Tachwedd 2014

⁷⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 97, 6 Tachwedd 2014

Dylai Llywodraeth Cymru wella'r hyfforddiant sydd ar gael cyn y lefel mynediad i helpu pobl ifanc ymgymryd â hyfforddeiaeth.

Prentisiaethau

155. Mae nifer o dystion wedi dweud wrthym y gallai cynlluniau fel prentisiaethau fod yn werthfawr iawn wrth baratoi pobl ifanc ar gyfer y gweithle, ond yn ôl y Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau, dim ond 15% o gyflogwyr Cymru sy'n cynnig prentisiaethau ar hyn o bryd".⁷⁸ Un rheswm posibl am hyn yw'r cymhlethdodau o gael mynediad at y cynlluniau hyn, yn enwedig ar gyfer cyflogwyr llai. Dywedodd yr Urdd wrthym:

"Fel cyflogwr, nid yw wastad yn hawdd dod o hyd i sut i gael mynediad i'r cynlluniau neu'r ariannu sy'n bosibl ei gael drwy'r cynlluniau hyn."⁷⁹

156. Cytunodd Cyngor Dinas a Sir Abertawe, gan ddweud:

"The only slight concerns are around some confusion for individuals as to accessing programmes and where the funding is to be found. I suspect that we are quite fortunate, as a large employer, but we know from speaking to small employers that they find it very difficult to know which programme pays what and where they go for the training."⁸⁰

157. Aeth ymlaen i ddweud:

"We have been at it for 10 years and still keep stumbling across different opportunities and different funding models that may be out there. So, one suggestion would be to bring those together in a single programme or a single place; I think that that would help young people to know where to access these things and also help the employers who perhaps have not got such large workforces, and people who do this as their day job could assist. That also links into opportunities around shared apprenticeships and other things, because, of course, some employers do not have the opportunity to employ somebody full time, but they can employ them on a shared basis."⁸¹

⁷⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig AYP 08, Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau

⁷⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 202, 6 Tachwedd 2014

⁸⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 212, 6 Tachwedd 2014

⁸¹ Ibid

158. Yn ei dystiolaeth, soniodd ColegauCymru am opsiynau eraill a oedd ar gael i bobl ifanc nad yw prentisiaeth, efallai, yn addas iddyn nhw:

“What is worth emphasising is that, as well as apprenticeships, 19 to 24-year-olds can also go to college to do part-time courses that, for those who would not be able to go on a full-time apprenticeship, would be quite appropriate for them. So, people with caring responsibilities or childcare responsibilities would be able to reskill and upskill on part-time programmes rather than have to go for a full-time apprenticeship.”⁸²

159. Cododd Comisiynydd Plant Cymru bryderon y byddai'r gostyngiad yn y cyllid ar gyfer prentisiaethau o gyllideb Llywodraeth Cymru yn llesteirio cynnydd ac yn niweidio'r cyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael i bobl ifanc yn y dyfodol.

160. Mynegodd ColegauCymru bryder hefyd ynghylch ariannu:

“There has been an expansion over a four or five-year period; there has been an increase in work-based learning resources over that time horizon. We just hope that the fiscal scenario that we are facing in the next four or five years means that there are enough places on apprenticeships and other programmes to enable that good work to continue.”⁸³

161. Yn ôl Chwarae Teg, er bod rhai cynlluniau a mentrau llwyddiannus yng Nghymru, fel Twf Swyddi Cymru a'r rhaglen Prentisiaeth, roedd yn bwysig eu bod yr un mor llwyddiannus i fenywod â dynion, ac y cymerir camau i sicrhau nad yw'r cynlluniau hyn yn hybu stereoteipiau rhyw.

Dylai Llywodraeth Cymru wneud hyd yn oed mwy i ledaenu gwybodaeth am brentisiaethau yn ehangach.

Dilyniant

162. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Comisiynydd Plant Cymru:

“Establishing effective routes of employment progression for young people is a core component to ensuring that the gains made in

⁸² Cofnod y Trafodion, paragraff 204, 12 Tachwedd 2014

⁸³ Cofnod y Trafodion, paragraff 265, 12 Tachwedd 2014

tackling youth unemployment and to improving overall social mobility are long-term sustainable.”⁸⁴

163. Awgrymodd Menter yr Ifanc Cymru hefyd bod cryn le i wella'r llwybrau i rai o'r galwedigaethau yn y sector gwasanaeth, a'r cynnydd o'u mewn. Mae'r sector hwn yn tyfu ac yn tueddu i gyflogi mwy o bobl ifanc:

“While growing apprenticeships will support this, more needs to be done to ensure these offer sustainable and productive careers with clear opportunities for progression.”⁸⁵

Bylchau yn y ddarpariaeth

164. Dywedodd Cyngor Bro Morgannwg wrthym fod angen rhagor o wasanaethau haen 2.

165. Roedd Cyngor Sir Fynwy a Chyngor Dinas a Sir Abertawe ill dau yn cytuno bod angen darpariaeth mwy effeithiol yn haen 2, ond bod angen alinio hynny'n well â'r ddarpariaeth yn haen 4:

“I think that there are gaps in provision and they are quite common across all local authorities—or at least the local authorities that I have spoken to as part of the regional groups. There are gaps in provision in tier 2—those hardest to reach—and in tier 4.”⁸⁶

166. Awgrymwyd mai'r rheswm am hyn oedd y canlynol: “NEET churn - where people move into tier 4, dip their toe in the water of education, employment or training, and then they drop back out again.”⁸⁷

Cyllid ar gyfer cyrsiau i bobl ifanc 18 oed a hŷn

167. Cododd Colegau Cymru bryderon am eu gallu i barhau i ddarparu rhai rhaglenni amser llawn a rhan-amser ar gyfer y grŵp oedran 19-24:

“The options at 18 are going to be very limited, given the funding constraints that we are facing in Wales.”⁸⁸

⁸⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig AYP 09, Comisiynydd Plant Cymru

⁸⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig AYP 10, Menter yr Ifanc Cymru

⁸⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 90, 12 Tachwedd 2014

⁸⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 94, 12 Tachwedd 2014

⁸⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 251, 12 Tachwedd 2014

Entrepreneuriaeth Ieuencid

168. Ym mis Tachwedd 2013, cyhoeddwyd ein hadroddiad ar entrepreneuriaeth ieuencid⁸⁹ a oedd yn cynnwys nifer o argymhellion i Lywodraeth Cymru gyda'r nod o wella gwybodaeth a chymorth ar gyfer entrepreneuriaeth ieuencid.

169. Yn ei dystiolaeth, dywedodd Comisiynydd Plant Cymru wrthym, er ei fod yn croesawu'r cynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o ran grymuso pobl ifanc i gymryd rheolaeth a chreu eu marchnad swyddi eu hunain trwy'r Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuencid, teimlai fod angen gwella pethau er mwyn hyrwyddo diwylliant o entrepreneuriaeth gymdeithasol ac entrepreneuriaeth drwy'r cwricwlwm addysg.

170. Mewn astudiaeth yn y DU, dywedd Ymddiriedolaeth Carnegie y DU mai pobl o Gymru oedd y rhai a oedd â'r diddordeb mwyaf mewn entrepreneuriaeth, ac a oedd â'r bwriadau cryfaf i fynd ar drywydd hunan-gyflogaeth. Fodd bynnag, yn Info-Nation, buom yn sgwrsio â pherson ifanc a oedd â diddordeb mewn dechrau ei fusnes ei hun, ond nad oedd wedi cael unrhyw gyngor nac arweiniad yn hyn o beth. Mae hyn yn siomedig ac yn awgrymu y gellid gwneud mwy i hyrwyddo entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc.

171. Dywedodd y bobl a ddaeth i'n digwyddiad yn Abertawe wrthym nad oedd entrepreneuriaeth yn rhan o'r cwricwlwm mewn ysgolion, ond y gallai fod yn llwybr amgen ar gyfer y rhai nad oedd am fynd ymlaen i addysg bellach.

Monitro a gwerthuso

172. Awgrymodd nifer o'r ymatebwyr fod angen gwerthuso'r cynlluniau presennol fwy fyth er mwyn asesu gwerth am arian.

173. Yn ei adolygiad gwerth am arian: *Lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant*, daeth Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r casgliad:

“...nad oedd dull cyffredin o werthuso prosiectau a chynlluniau unigol. Nid oedd gwaith gwerthuso yn digwydd fel mater o drefn ac felly roedd yn anodd asesu'r gwerth am arian.”⁹⁰

⁸⁹ Adroddiad pwyllgor: [Entrepreneuriaeth Ieuencid](#)

⁹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig AYP 01, Swyddfa Archwilio Cymru

Cyllid

174. Dywedodd y rhai a ddaeth i'n digwyddiad yn Abertawe bod y gwahanol asiantaethau yn aml iawn yn dyblygu gwaith, ond nad oedd y ffordd y maent yn cael eu hariannu yn hybu gweithio ar draws asiantaethau.

175. Roedd Working Links yn cytuno:

“In relation to Value for Money, we see many missed opportunities of joint working across providers and funding streams that could improve value for money. We have many examples of where we are not currently utilising funding to provide the best value or the best out-comes for young people. For example, young people accessing training and support pre-work programme, once referred to WP are not able to continue to access this provision. This stipulation means that those accessing assistance could be half way through a basic skills or other training programme and then, when referred to the Work Programme, become ineligible and have to cease their participation.”⁹¹

176. Dywedodd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd:

“One of our concerns was that the framework, for instance, involves an expectation of levels of specific support to young people that can be provided by different partners. So, the lead worker could come through the youth service, could come through the careers service, could be provided by a third sector agency, or another local authority approach. The streams of funding do not move as easily as deciding who is the key and best placed person for a young person to play that lead role of making sure that the agencies are co-ordinated. So, one of the recommendations that we make is that there is a mapping and a reviewing of how the resourcing ties with what turns out to be the roles on the ground, because it could be that some money needs to go from the careers service to the youth service or vice versa, but those decisions are not made in the same place.”⁹²

177. Mae'r broblem hon o ddyblygu cyllid yn hysbys ers tro, ond mae parhau i ariannu darpariaeth debyg mewn ardaloedd tebyg yn golygu nad yw cyllidebau cyfyngedig yn cael eu gwario mor effeithiol ag y gallent fod.

⁹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig AYP 12, Working Links

⁹² Cofnod y Trafodion, paragraff 54, 6 Tachwedd 2014

Adolygiadau Llywodraeth Cymru

Adolygiadau Llywodraeth Cymru

178. Yn ei thystiolaeth lafar, soniodd y Dirprwy Weinidog am nifer o adolygiadau a phrosiectau.

Argymhellwn fod y Dirprwy Weinidog yn cynnal yr adolygiadau canlynol ar frys, a gofynnwn iddi roi rhagor o fanylion am y cynlluniau gweithredu a'r amserlenni ar gyfer yr adolygiadau a'r prosiectau hyn, gan gynnwys:

- yr adolygiad o brofiad gwaith;
- yr adolygiad o strwythur Gyrfa Cymru; a'r
- cynlluniau ar gyfer dull gwell o ymwneud â chyflogwyr i ddarparu gwybodaeth gywir am y farchnad lafur i bobl ifanc.

Atodiad A – Cylch gorchwyl

Dyma gylch gorchwyl yr ymchwiliad:

- Pa gymorth sydd fwyaf effeithiol a beth yw'r prif rwystrau a wynebir gan bobl ifanc wrth iddynt geisio ymuno â'r farchnad lafur?
- I ba raddau y mae strategaeth Llywodraeth Cymru i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn effeithiol ac yn cynnig gwerth am arian?
- Pa gynnydd a wnaed hyd yma o ran Cynllun Gweithredu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid?
- Pa mor effeithiol yw rôl strategol awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill, gan gynnwys y Gwasanaeth Gyrfaoedd, y Gwasanaeth Ieuenctid a'r consortia addysg rhanbarthol?
- I ba raddau y ceir gwahaniaethu, a'r effaith ar recriwtio pobl ifanc;
- Pa mor effeithiol yw'r amrywiaeth o gynlluniau, mentrau a phrosiectau sy'n anelu at gefnogi pobl ifanc i gael gwaith, er enghraifft: Twf Swyddi Cymru, prentisiaethau, hyfforddeiaethau, prosiectau eraill a gefnogir gan gyllid Ewropeaidd a phrosiectau a reolir gan y trydydd sector? A ydynt yn sicrhau gwerth am arian?

Mae'r materion y mae'r Pwyllgor yn eu hystyried fel rhan o'r cylch gorchwyl hwn yn cynnwys:

- Effaith penderfyniad Llywodraeth Cymru i flaenoriaethu cymorth i bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed; ac effaith y penderfyniad hwnnw ar bobl ifanc rhwng 19 a 24 oed;
- Trafnidiaeth (yn enwedig mewn ardaloedd gwledig): beth yw'r problemau a pha gymorth y gellir ei ddarparu?
- Yr angen am 'sgiliau meddal': e.e. sgiliau ar gyfer cyfweiliad a cheisio am swydd; sgiliau i baratoi'r unigolyn at fyd gwaith;
- Beth y gellir ei wneud i helpu grwpiau o bobl ifanc sy'n cael eu heffeithio yn fwy gan rwystrau i ailymuno â'r farchnad lafur, er enghraifft pobl ag anableddau?
- Effaith a gwerth am arian cronfeydd Ewropeaidd;
- Amrywiaeth ranbarthol a heriau lleol;
- Y problemau cymdeithasol sy'n dal pobl ifanc rhag dod o hyd i waith, a sut i newid y diwylliant a'r agwedd sy'n cadarnhau diweithdra i lawer.

Atodiad B – Rhestr o’r dystiolaeth ysgrifenedig

Sefydliad

Swyddfa Archwilio Cymru
Barnardo's Cymru
BBC Cymru Wales
Sense Cymru
RNIB Cymru
Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam
Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau
Comisiynydd Plant Cymru
Menter yr Ifanc Cymru
Ymddiriedolaeth Carnegie y DU
Working Links
Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru
Cymunedau yn Gyntaf y Barri
Chwarae Teg
Cyngor Bro Morgannwg
Y Groes Goch Brydeinig
Rhwydwaith Maethu Cymru
Cyngor Sir Fynwy
Gyrfa Cymru
Grŵp Ieuenctid Sengl Digartref Arfon
BT Cymru
Llais Ni Fforwm Ieuenctid Ynys Môn
Mentrau Iaith Cymru

Atodiad C – Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth yn llawn yn:

www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=1307

6 Tachwedd 2014

Steve Martin Claire Flood-page	Swyddfa Archwilio Cymru
Yvonne Rodgers	Barnardo's Cymru
Elizabeth Stokes	Llamau
Andrew Viazzani	Admiral
Wendy Rees	BBC Cymru
Martin Nicholls	Cyngor Dinas a Sir Abertawe
Efa Gruffudd Jones	Urdd Gobaith Cymru
Richard Spear	Gyrfa Cymru

12 Tachwedd 2014

Jo-Ann Walsh	Cyngor Dinas a Sir Abertawe
Leanne Ward	Cyngor Sir Fynwy
Arwyn Watkins Jeff Protheroe Andrew Cooksley	Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru
Dr Greg Walker Mark Jones	ColegauCymru

26 Tachwedd 2014

Julie James AC Huw Morris Teresa Holdsworth	Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg Llywodraeth Cymru
---	--

15 Ionawr 2015

Nia Wyn Roberts	Ysgol Uwchradd Caergybi
Joanna Murray	Ysgol Gyfun Treorci
Michael Davies	Ysgol y Preseli

Atodiad D – Nodiadau o'r digwyddiadau i randdeiliaid

Digwyddiad i randdeiliaid

Canolfan Gynadledda Gŵyr, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Campws Abertawe - Dydd Iau 20 Tachwedd 2014

Diben

Diben y digwyddiad hwn oedd rhoi cyfle i Aelodau'r Pwyllgor Menter a Busnes glywed barn a phrofiadau gwahanol fudiadau.

Cafodd y bobl yn y digwyddiad eu rhannu'n dri, gyda phob grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr y mudiadau ac Aelod Cynulliad.

Roedd Grŵp 1 yn cynnwys y canlynol:

Jeff Cuthbert AC (Cadeirydd)
Jaime Spooner, Transitions into Employment
Lesley Rees, Gyrfa Cymru
Rachel Kingdon, Gyrfa Cymru
Natasha Davies, Chwarae Teg
Charlotte Davies, YMCA Abertawe
Michaela Lloyd, YMCA Abertawe
Alan Mackey, A4E
Anne Thomas, Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (nodiadau)

Crynodeb o'r prif bwyntiau:

Rhwystrau i ymuno â'r gweithle

- Diffyg profiad, ond mae'n wirioneddol anodd i berson ifanc dibrofiad gael profiad perthnasol; gall cyfleoedd gwirfoddoli helpu.
- Mae llawer o gystadleuaeth am y cyfleoedd sydd ar gael, ac mae pobl sydd â lefelau is o gymwysterau yn tueddu i golli allan i bobl eraill a chanddynt gymwysterau gwell;
- Nid yw pob person ifanc yn barod i ddechrau ar gwrs dysgu yn y gwaith neu gwrs coleg addysg bellach, ac nid yw'r sgiliau na'r cymwysterau angenrheidiol gan bob un.
- Dylai ysgolion wneud mwy i fynd i'r afael â materion llythrennedd a rhifedd; mae llythrennedd a rhifedd yn broblem fawr;

- Nid oes gan bobl ifanc ddigon o brofiad a hyder i wneud pethau yn annibynnol; mae diffyg hyder yn rhwystr cyffredin;
- Nid oes digon o ddarpariaeth ar lefel cyn lefel mynediad (neu lefel porth); o bosibl, mae tua thraean neu hanner y bobl ifanc ar hyfforddeiaethau lefel ymgysylltu angen cymorth *cyn-ymgysylltu* mewn gwirionedd; dylai Llywodraeth Cymru ariannu mwy o ddarpariaeth cyn y lefel ymgysylltu neu ddarpariaeth ar lefel porth fel mater o frys.

Paratoi ar gyfer y gweithle

- Mae'r cwtogi ar y cyllid gan Lywodraeth Cymru wedi effeithio er gwaeth ar y dewis o gyrsiau mewn colegau;
- Mae amrywiaeth ehangach o opsiynau yn y cwricwlwm ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed wedi helpu pobl ifanc nad oes ganddyn nhw ddiddordeb yn y pynciau academaidd traddodiadol;
- Mae cyflogwyr yn aml yn gwerthfawrogi sgiliau "parod at waith" gymaint â chymwysterau ffurfiol, neu hyd yn oed yn fwy na hynny.
- Dylai ysgolion wneud mwy i addysgu sgiliau "parod at waith" i'r rhai sydd eu hangen; yn aml iawn nid yw pobl ifanc o gartrefi di-waith yn dysgu'r sgiliau hyn yn y cartref.

Profiad gwaith

- Mae angen i brofiad gwaith a lleoliadau fod o ansawdd da, yn ddiddorol ac yn berthnasol i fod o unrhyw gymorth; mae rhan fawr i gyflogwyr ei chwarae i wneud yn fawr o'r cyfleoedd i bobl ifanc drwy brofiad gwaith;
- Dylai cyflogwyr ymwneud llawer mwy ag ysgolion nag a wneir ar hyn o bryd.

Dysgu seiliedig ar waith / prentisiaethau

- Rhaid i'r ddarpariaeth fod yn hyblyg; fel arfer mae darparwyr dysgu seiliedig ar waith yn cael eu cyllido i wneud darpariaeth am 12 wythnos, ond mae angen mwy o amser na hyn ar rai pobl ifanc. Os yw'r person ifanc yn aros ymlaen yn hirach na 12 wythnos, nid yw'r darparwr dysgu seiliedig ar waith yn cael unrhyw arian am yr wythnosau ychwanegol;
- Dylai'r adnoddau presennol gael eu defnyddio mor effeithlon â phosibl gan fod adnoddau'n brin;
- Mae'n hollbwysig bod dilyniant i'r cyrsiau seiliedig ar waith; rhaid i'r dysgwr fynd ar 'daith';

- Dylid mynd i'r afael â'r stereoteipiau rhyw traddodiadol, yn enwedig mewn prentisiaethau;
- Dylai arfer da ar ddefnyddio prentisiaethau ar y cyd fod ar gael yn eang; gall prentisiaethau ar y cyd fod yn ddefnyddiol iawn i gyflogwyr bach, ond ychydig sy'n manteisio arnyn nhw ar hyn o bryd;
- Wrth gynllunio'r ddarpariaeth dysgu seiliedig ar waith, rhaid cael gwybodaeth gywir a diweddar am y farchnad lafur leol;
- Mae rhai rhieni yn pryderu y gall hyfforddiant fod yn fath o 'gaethwasiaeth' am lwfansau hyfforddi isel (£30 neu £50 yr wythnos). Dylai cyrff perthnasol geisio mynd i'r afael â'r gamddealltwriaeth am lwfansau hyfforddi (hynny yw nid cyflogau ydyn nhw).

Asiantaethau sy'n darparu cymorth i bobl ifanc

- Weithiau nid yw pobl ifanc yn cael eu trin fel unigolion; mae dull personol yn hanfodol er mwyn eu helpu i fynd i'r afael â'u rhwystrau unigol;
- Gall fod diffyg cydlyniant, neu hyd yn oed rwystrau, rhwng sefydliadau cefnogol; mae dull aml-asiantaeth a di-dor o weithredu yn hanfodol.

Cyngor ar yrfaoedd

- Nid oes digon o wybodaeth mewn ysgolion am gyfleoedd eraill heblaw rhai academaidd, er enghraifft cyrsiau galwedigaethol, hyfforddeiaethau, a phrentisiaethau;
- Mae Gyrfa Cymru yn darparu cyngor mwy cytbwys ar yr amrywiaeth o gyfleoedd academaidd a galwedigaethol sydd ar gael;
- Mae rhoi cyngor wyneb yn wyneb yn hanfodol; nid yw rhoi cyngor ar-lein yn ddigon personol, ac felly nid yw mor effeithiol. "Nid yw'n wir bod pobl ifanc eisiau popeth ar-lein".

Roedd Grŵp 2 yn cynnwys y canlynol:

William Graham AC (Cadeirydd)

Nigel Sheppard, Transitions into Employment

Karen Snowdon, ACO Training

Sue Entwistle, Pop Up Talent

Michelle Pengelley, Working Links

Jess Bartini, Ymddiriedolaeth St Giles

Gerald Davies, Canolfan Fusnes a Gweithredu Cymdeithasol

Crynodeb o'r prif bwyntiau:

Paratoi ar gyfer y gweithle

- Yn achos llawer o bobl ifanc, nid ydyn nhw'n brin o sgiliau, dydyn nhw ddim yn gwybod sut i werthu eu hunain i gyflogwyr. Gall hyn fod yr un mor berthnasol i raddedigion â phobl ifanc anodd eu lleoli.
- Mae angen gwella sgiliau sylfaenol ond mae angen addysgu sgiliau cyflogadwyedd hefyd. Mae paratoi pobl ifanc ar gyfer y gweithle yn bwysig dros ben o ran agwedd, cadw amser a sgiliau cymdeithasol, ac mae angen i hyn ddigwydd lawer cynt na 14-16 oed, oherwydd erbyn hynny maen nhw eisoes wedi dysgu arferion gwael.
- Mae addysgu cyflogwyr yn bwysig iawn. Mae llawer o gyflogwyr yn gyndyn i gyflogi pobl ifanc, yn enwedig pobl ifanc ag ymddygiad heriol, oherwydd eu bod yn buddsoddi llawer o amser ac ymdrech ac nad yw hynny bob amser yn talu'i ffordd. Roedd hyn yn arbennig o wir gyda chyflogwyr llai.

Prentisiaethau

- Mae prentisiaethau yn cynnig cyfleoedd i gael profiad gwaith go iawn, y telir amdano gan y cyflogwr, ac erbyn y diwedd, mae'r prentis yn werthfawr i'r cyflogwr hwnnw.
- Yn ystod prentisiaeth, mae'r prentis yn aeddfedu, yn dod yn oedolyn ac yn medru gwneud rhywbeth yn dda, o bosibl am y tro cyntaf erioed.

Profiad gwaith

- Mae ymrwymiad cyflogwr yn hynod o bwysig o ran cael lleoliadau gwaith o ansawdd ac mae angen dechrau cyn gynted â phosibl.

Dewis pynciau

- Mae pobl ifanc yn gwneud penderfyniadau yng Nghyfnod Allweddol 4, heb unrhyw wybodaeth am y gweithle a'r hyn y mae hynny'n ei olygu. Yn aml, mae eu penderfyniadau yn seiliedig ar bwysau gan gyfoedion a

beth mae eu ffrindiau yn ei wneud yn hytrach na meddwl am eu gyrafoedd hwy eu hunain yn y tymor hir.

- Mae rhai'n meddwl bod pynciau creadigol yn llai teilwng na phynciau mathemategol / gwyddonol.

Gyrfa Cymru

- Ar y cyfan, roedd y profiad o weithio gyda Gyrfa Cymru yn gadarnhaol iawn, er bod rhywfaint o rwystredigaeth ynghylch methu â ffonio unigolion perthnasol ragor.

Twf Swyddi Cymru

- Roedd y farn am Twf Swyddi Cymru yn gymysg. I bob golwg, roedd llawer yn dibynnu ar y cwmni y mae'r person ifanc yn cael ei leoli gydag ef.
- Mewn un achos rhyddhawyd cleient ar ddiwedd ei leoliad, a chafodd y swydd wedyn ei hail-hysbysebu drwy Twf Swyddi Cymru.
- Roedd teimlad bod hyn yn broblem bosibl gyda Twf Swyddi Cymru oherwydd nad oedd cyflogwyr yn buddsoddi'n ariannol yn y rhaglen.
- Ar ddiwedd lleoliad dylid anelu at gyflogaeth, a theimlwyd nad oedd Twf Swyddi Cymru yn cyflawni hyn.

Asiantaethau sy'n darparu cymorth i bobl ifanc

- Mae angen i asiantaethau statudol a gwirfoddol weithio'n fwy cydgysylltiedig. Mae'r Fframwaith Ymgysylltu Ieuenctid yn dechrau edrych ar y gwahanol sefydliadau, ond Gyrfa Cymru sy'n penderfynu pwy sy'n cael y bobl ifanc.
- Mae llawer o ddyblygu rhwng yr asiantaethau, ac nid yw'r ffordd y maent yn cael eu hariannu yn annog cydweithio.
- Dylai'r gwasanaethau ganolbwyntio ar anghenion pobl ifanc, a theimlwyd nad oedd hyn yn wir bob amser - anghenion y sefydliad sy'n dod gyntaf.
- Roedd y Gwasanaethau Cyffuriau ac Alcohol wedi cyflwyno un pwynt cyswllt ac maent yn cyfeirio pobl at yr asiantaeth fwyaf priodol, boed honno yn y sector statudol neu'r sector gwirfoddol. Dylid rhoi ystyriaeth i fabwysiadu dull tebyg ar gyfer addysg a hyfforddiant cyflogaeth.
- Gan fod yr asiantaethau gwirfoddol yn cystadlu yn erbyn ei gilydd am yr un cronfa ariannol roedd perygl y gallent fynd yn blwyfol.

Trafnidiaeth

- Mae cost trafndiaeth gyhoeddus, a'r ddarpariaeth sydd ar gael, yn rhwystr gwirioneddol i bobl ifanc sy'n chwilio am waith neu hyfforddiant. Mae pobl ifanc 18 oed ac iau, ac weithiau rhai 19 oed, sydd mewn addysg amser llawn, yn gallu teithio ar fysiau a thramiau am ddim yn Llundain gyda cherdyn Oyster.

Dechrau busnes

- Mae nifer o fentrau sy'n rhoi cymorth i bobl ifanc sydd am sefydlu eu busnes eu hunain, fel Ymddiriedolaeth y Tywysog, trwy ddarparu benthyciad. Nid oedd yn glir faint o gymorth y maen nhw'n ei ddarparu ar ôl rhoi'r benthyciad.

Pwyntiau cyffredinol

- Mae angen mwy o ffocws a chefnogaeth ar gyfer y grŵp oedran 19-24.
- Mae pobl ifanc yn dieithrio'n fwyfwy o gymdeithas, oherwydd nid oes unrhyw beth yno ar eu cyfer. Mae angen rôl a llais arnyn nhw yn y gymdeithas.
- Mae mynd i weld pobl ifanc a dweud wrthyn nhw pa gymorth y gallan nhw ei gynnig yn well na disgwyl iddyn nhw ddod i grwpiau ieuenctid, er enghraifft.

Roedd Grŵp 3 yn cynnwys y canlynol:

Rhun ap Iorwerth AC
Helen Devitt, Construction Youth Trust
Nia Griffiths, GISDA
Stephen Griffiths, Ymddiriedolaeth St Giles
Helen Healey, ACT
Emma Lewis, Scooter Scheme

Crynodeb o'r prif bwyntiau:

Rhwystrau

- Mae prinder trafndiaeth gyhoeddus yn rhwystr, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Mae prynu car yn ddrud, ac mae'n ddrud i'w redeg, heb sŏn am yr yswiriant. Mae'r Cynllun Sgwter wedi gwneud gwahaniaeth yn Sir Benfro, gan alluogi pobl ifanc i rentu sgwter rhad pan fydd ganddyn nhw swydd.
- Gall y system fudd-daliadau fod yn rhwystr hefyd. Yn achos pobl ifanc sydd wedi bod yn ddigartref, gall derbyn swydd olygu colli eu llety. Maen nhw'n awyddus i weithio, ond mae angen cymorth wedi'i deilwra arnyn nhw. Mae'n haws i'r rheini sy'n dal i fyw gyda'u rhieni.
- Mae lefelau cyflog yn rhwystr. Disgwylir i bobl ifanc dderbyn swyddi er mwyn cael profiad, a hynny weithiau heb gael yr isafswm cyflog. Mae hyn yn anoddach ar gyfer y bobl ifanc mwyaf difreintiedig. Os bydd person ifanc yn byw gyda'i rieni ac yn cael popeth, mae'n haws derbyn swyddi nad ydyn nhw'n talu cyflog byw. Mae rhai prentisiaethau hyd yn oed yn talu cyn lleied â £2 yr awr. Hefyd, mae contractau oriau sero yn tueddu i gael eu cynnig i'r rhai mwyaf difreintiedig.
- Mae pawb yn cymryd yn ganiataol bod gan bobl ifanc ffonau symudol, y we, band eang, ac ati. Nid yw hynny'n wir bob amser.

Y darlun mawr

- Yn aml iawn, dim ond rhan o'r darlun yw gwaith. Mae rhai pobl ifanc yn dod o gefndiroedd sydd ar chwâl, lle nad ydyn nhw'n cael cefnogaeth sylfaenol gan y teulu. Nid yw bob amser yn hawdd iddyn nhw weld ble i droi am gymorth. Mae bywyd yn flinedig i bobl mewn sefyllfaoedd o'r fath, a does ganddyn nhw ddim amser nac egni i chwilio am waith.
- Mae problemau penodol mewn ardaloedd gwledig. Er enghraifft, gall fod yn her i fynd i lyfrgell i ddefnyddio cyfrifiaduron a gwneud cais am

swyddi. Mae mwy a mwy o gyflogwyr yn gofyn i bobl wneud cais ar-lein, ond nid oes technoleg gan bawb.

- Mewn rhai ardaloedd, mae pobl ifanc yn cefnu ar eu cyfoedion sydd wedi gwneud cais am swyddi.

Paratoi ar gyfer gwaith

- Mae'r Pwyllgor wedi clywed tystiolaeth nad yw pobl ifanc yn barod ar gyfer y gweithle pan fyddan nhw'n gadael yr ysgol. Sut y gallan nhw baratoi ar gyfer byd gwaith?
- Weithiau mae cyflogwyr yn manteisio ar bobl ifanc - mae dysgu am hawliau yn rhan o baratoi ar gyfer gwaith.
- Dylai fod mwy o gyfleoedd i ddysgu am y gweithle yn yr ysgol - ac yn ehangach na'r profiad gwaith sydd ar gael ar hyn o bryd.
- Gallai fod yn ddefnyddiol i bobl ifanc glywed gan bobl o gefndiroedd tebyg sydd wedi bod yn llwyddiannus ar ôl gadael yr ysgol.
- Gallai fod angen addysgu sgiliau meddal i'r genhedlaeth bresennol; gall y cyfryngau cymdeithasol olygu nad ydyn nhw'n datblygu'r sgiliau hyn fel yr oedd y cenedlaethau blaenorol yn ei wneud. Gallai ysgolion edrych ar hyn.
- Fodd bynnag, mae angen cefnogaeth y tu allan i'r ysgol hefyd. Nid yw'r rhai mwyaf difreintiedig o reidrwydd yn cael llawer o gyswllt gyda'r ysgol.

Prentisiaethau a Dysgu Galwedigaethol

- Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi mewn prentisiaethau yn ddiweddar. A yw hyn wedi gwneud gwahaniaeth? Barn y panel oedd bod pethau wedi gwella, ond bod tipyn o ffordd i fynd.
- Mae problem weithiau gyda diffyg parch at rai proffesiynau. Mae angen i ni ddangos i bobl ifanc bod gwaith llaw yn gallu talu'n dda ac arwain at yrfa dda. Mae llawer o gyfleoedd mewn proffesiynau sy'n cael eu hystyried yn hen ffasiwn.
- Gallai colegau fod yn fwy hyblyg o ran y cyrsiau y maen nhw'n eu darparu. Weithiau, nid yw'r strwythur yn addas ar gyfer dysgwyr na chyflogwyr.
- Nid yw hyfforddiant galwedigaethol yn cael yr un parch ag addysg academaidd. Mae'n rhaid i ni ddangos i bobl ifanc nad yw'n llai pwysig na dysgu academaidd. Gallai ysgolion wneud mwy i herio'r syniad hwn.

Gall fod problemau penodol mewn ysgolion sydd â chweched dosbarth.

- Nid yw entrepreneuriaeth yn rhan o'r cwricwlwm mewn ysgolion, ac eto mae'n llwybr amgen ar gyfer y rhai nad ydyn nhw'n cael eu denu gan addysg bellach.

Gyrfa Cymru

- Rhaid i ni gyfathrebu'n well o ran y cyfleoedd i bobl ifanc, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig. Ond mae'r toriadau yn gwneud hyn yn anodd - er enghraifft mae swyddfa yrfaeodded wedi cau yng Nghaernarfon yn ddiweddar.
- Dylai darparwyr hyfforddiant, Gyrfa Cymru ac ysgolion weithio'n agosach gyda'i gilydd.
- Mae cyngor gyrfaeodded yn cael ei roi ar-lein, ond nid yw'r dechnoleg ar gael yn hawdd i bawb.
- Mae pobl ifanc ofn dewis gyrfa wael. Rhaid i ni esbonio ei bod hefyd yn bosibl newid gyrfa yn ddiweddarach.
- Gallai Gyrfa Cymru fod yn fwy rhagweithiol wrth gysylltu â phobl ifanc.

Trafnidiaeth, a materion eraill

- Mae'r drafnidiaeth gyhoeddus sydd ar gael yn newid y ffordd y mae pobl ifanc yn ystyried y farchnad swyddi. Mae'n ehangu'r cyfleoedd sydd ar gael iddyn nhw.
- Mae'r Ganolfan Waith yn rhoi talebau i bobl ifanc eu defnyddio ar fysiau, ond nid yw'r gyrrwyr bob amser yn gwybod beth ydyn nhw. Mae pobl ifanc yn mynd i deimlo embaras os oes rhaid iddyn nhw berswadio'r gyrrwr ei fod yn docyn dilys.
- Gall pobl ifanc fod yn blwyfol iawn. Weithiau, dydyn nhw ddim eisiau teithio i'r dref nesaf i gael gwaith.
- Gall iaith fod yn rhwystr os nad yw'r bobl ifanc yn siarad iaith y gymuned lle maen nhw'n byw.